



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search


Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>

10095

e 68

10095 e. 68





Ad new
Cresc 1/0

RHITH A GRYM

DUWIOLDEB;

WEDI EU GOSOD ALLAN MEWN

DWY BREGETH,

ODDIWERTH 2 TIMOTHEUS, 3. 5.

GAN

THOMAS POWEL,

GWEINIDOG YR EFWGYL YN NINBYCH.

Y maent yn profesen yr adwaonant Dduw: eithr ar weithfedeodd
ei wadu y maent. *Ti. 1. 16.*

Ti a bwyswyd yn y cloriannau ac a'th gaed yn brin. *Dan. 5. 27.*

Eithr duwioldeb sydd fuddiol i bob peth. 1 *Tim. 4. 8.*

Canys gwreiddyn y matter a gaed yno. *Job 19. 28.*

DINBYCH,

ARGRAFFWYD GAN THOMAS GEE,

1811.

GAREDIG D'DARLLENYDD,

PETH hawdd iawn a thueddol yw i ddynion orphwys a boiddloni ar rith duwioldeb, ac felly bod yn golledig byth; ie fe ddichon dynion fyned ymhell mewn pethau crefyddol, ac yn y diwedd fod heb rym duwioldeb ganddynt. Y mae agwedd llawer yn profi eu bod heb y gweirionedd, er bod ganddynt rith o grefydd; ac y mae'r cyfryw yn gyffredin yn esmwyth arnynt yn Sion, tra y mae'r gwir Gristion yn ofni ei hunan ac yn chwilio ei hun yn wyneb y gair. Fel y mae profes o Grist yn hawdd i'w gwisgo yn y dyddiau hyn, y mae lle i ofni fod eglwysydd Duw a llawer ynddynt heb ddim ond rhith. Wrth sylwi ar y pethau a enwyd uchod, fe dueddwyd fy meddwl i fufyrrio ar yr adnod, sydd yn sylfaen i'r hyn a ddywedir yn y llyfr hwn. Pa fwyaf y sylwcn ar y geiriau, mwyaf i gyd yr oeddwn yn gweled yr anghenrheidrwydd i fufyrrio arnynt. Yr oeddwn yn cydnabod eu bod yn wirioneddau oedd yn gofyn manyldra wrth ymdrin â hwynt. Wrth olygu prws y gwaith, a fy anaddasrwydd i fyned y'nghyd âg ef, yr oedd cryndod ac arswyd yn fy meddiannu, rhag ofn gweinyd cam a'r gwirionedd ac eneidiau anfarwol; am hyn ymdrechais i gadw o fern cysfiniau'r gair. Ar ol hir fufyrrio ar y geiriau, mi a anturiais lesaru sylwedd y ddwy bregeth hyn i bobl fy ngofal; yn ganlynol i hynny fe anlygodd amryw o honnynt eu dymuniad i'r pregethau hyn gael eu hargraphu. Mi a ddymunwn na fyddai i un gwir Gristion, wrth ddarllen y llyfr hwn, sgrifenu pethau chwertwon yn ei erbyn ei hun, nac yn digalonni; ond ei fod yn cael ei ddwyn i i chwilio pa beth sydd ganddo, i wynebu barn. Am dymuniad yw i'r rhagrithiwr gael ei argyhoeddi o'i dwyll, a'i ddwyn i ymosyn am rym duwioldeb. Nid wyf yn disgwyl i'r llyfr hwn fod heb ei fai; ond edryched y darlennydd caredig ar y ffaeledd, nid fel peth bwriadol, ond o anwybodaeth. Yr wyf yn ei orchymyn i fendith Duw (yr hwn wyf yn ei wasanaethu yn efen-gyl ei Fab) am iddo fod o fendith i laweroedd. Hyn yw gwir ddymuniad dy gyd-deithiwr tu a'r byd a berg byth.

THOMAS POWEL.

RHITH A GRYM

DUWOLDEB.

2 TIMOTHEUS 3. 3.

A chanddynt rith duwioldeb, eithr wedi gwadu ei grym hi; a'r rhai hyn gochel di.

YN y bennod o'r blaen yr ydym yn cael yr Apostol yn rhoddi amrywiol gyfarwyddiadau i Timotheus yn ei uchel swydd, fel gweinidog yr efengyl; pa fodd i ymddwyn er harddwch i'r efengyl, ac er llesad i bechaduriaid. Y mae hefyd yn ei annog i fyned ymlaen yngwaith Duw. Yn nechreu y bennod hon y mae efe yn rhagddywedyd rhai o'r pethau niweidiol a gymmerai le yn y dyddiau diweddaf. With y dyddiau diweddaf yr ydym yn gyffredin yn deall, yn yr Ysgriflyfrau, dyddiau yr efengyl. "A bydd yn y dyddiau diweddaf, medd Duw, y tywalltas o'mi hyspryd ar bob enwad," *Joel 2. 28. Act. 2. 17.* Y mae yn amlwg fod yr Apostol Pedr yn cymmwyso yr adnod a enwyd at ddyddiau yr efengyl. Bryd arall y deallir wrth y dyddiau diweddaf, Yr amser diweddaf o ddyddiau yr efengyl: Ac y mae yn debyg mai y meddwl diweddaf a enwyd a ddeallir yma. Yr hyn a ddywedir a fydd yn y dyddiau diweddaf, yw *amseroedd enbyd.*

Er bod dyddiau yr efengyl yn ddyddiau gogoneddus iawn, etto nid ydynt heb eu cymmylau; er bod llawer o erledigaethau yn y dyddiau hyn, etto nid hyny sydd yn gwneuthur yr amseroedd mor enbyd ac ydynt. Mae erledigaethau lawer pryd yn fendith i'r eglwys. Y mae dyuion sydd yn gorphwys ar rith duwioldeb yn gwneuthur mwy o niwed i achos Duw, na dim arall. Y mae yn hawddach adnabod y Diafol yn ei wisg ei lun, na'r pryd y byddo yn ymddangos yn ngwisg Angel y goleuni.

Pan y mae efe yn rhuo ac yn ymgrenloni yn erbyn eglwys Dduw, y mae efe yn elyn amwg; ond pan y byddo, trwy ragrithwyr, yn dyfod i mewn i'r eglwys, ac yn ymddangos fel pe byddai o blaid achos Duw; dyma'r pryd y mae efe yn gwneuthur mwyaf o ddrwg. Y mae hyn yn amlwg i'w weled yn ngwaith y Diafol yn defnyddio Sambalat a Thobia &c, *Neh.* 6, i ymdrechu dychrynu y bobl rhag iddynt adeiladu teml Dduw yn Jerusalem. Ond pan welodd y gelyn na lwyddai efe trwy fwgwth, efe a drôdd yn grefyddwr, gan ddywedyd wrth yr Iuddewon, "adeiladwn gyda chwi; canys fel chwithau y ceisiwn eich Duw chwi," *Ezra* 4. 2.

Nid oes un amser mor enbyd a niweidiol i wir grefydd a'r amser claeaf, difywyd; a phan y byddo crefydd yn beth cyffredin y'ngolwg dynion, ac yn cael ei harferyd mewn ysgafndra. Yn y cyfryw amser hawdd yw i bawb fod ar enw crefyddwyr. Y mae yn sicr fod yr amseroedd enbyd hyn wedi ein goddiweddyd ni yn y dyddiau hyn; Oblegid os sylwn ar y disgrifiadau a wnair gan yr Apostol, yn yr adnodau o flaen y testun, ni a welwn yn amlwg fod dull llaweroedd o broffeswyr yn hollawl debyg iddynt.

Bod "dynion â'u serch arnynt eu hunain, yn arianngar, yn ymfrostwyr, yn feilchion, yn gablwyr, yn au-fuddion, yn anqiolchgar yn annuwiol, yn angharedig, yn torri cyfammod, yn enllibaidd, yn anghymesur, yn anfwyn, yn ddiserch i'r thai da, yn fradwyr, yn waed-wyllt, yn chwyddedig, yn caru meluschwant yn fwy nag yn caru Duw." Y mae yn bur eglur fod yr adnodau a ddarllenwyd yn ddisgrifiad naturiol o laweroedd o broffeswyr yn ein dyddiau. Os darllenwn ni eiriau'r testun, cawn weled bod a wnelo y bobl yma â chrefydd. Ni fuaasai yn beth rhyfedd eu bod fel ag y maent yn cael eu disgrifio; ond syndod yw i bob meddwl, eu bod ar enw crefyddwyr. Dywedir fod ganddynt rith duwioldeb. Y mae'r gair sydd yma yn cael ei gyfieithu, *rhith*, yn cael ei gyfieithu *ffurf*, yn *Rhuf.* 2. 10.

Rhith yw rhyw beth a fyddo yn ymddangos oddiallan yn dda; ond pan y chwilier ef, y mae yn llawn twyll

oddi mewn. Y mae rhith yn debyg i fadd wedi ei wynnu, yn ymddangos oddiallan yn hardd, ond oddi mewn yn llawn o esgyrn y meirw a phob budreddi. Tebyg i gwppan wedi ei lanhau y tu allan, ond yn aflan oddi mewn. *Math. 23. 27.* Llun gras heb sylwedd gras, yw rhith, neu *bicture* duwioldeb heb fywyd duwioldeb. Rhith yw bod dynion yn ymddangos yn dduwiol, ac heb fod; Fel y Phariseaid, yn ymddangos eu bod yn gyfiawn; ond o fewn yn llawn rhagrith ac anwiredd, *Math. 23. 28.*

Eithr wedi gwadu ei grym hi;

Y mae dau fath o bobl yn gwadu grym duwioldeb: 1. Y rhai sydd yn gwadu yr anghenrheidrwydd o Iawn Crist i'r diben i gymmodi pechaduriaid â Duw: Mae y cyfryw yn gwadu grym duwioldeb. Y maent yn ymdroi yn eu hunain-gyfiawnderau, ac felly yn sathru tan draed waed y cyfammod. Dyma fel yr oedd y Phariseaid yn codi i fynu eu cyfiawnderau eu hunain, ac nid ymostyngasant i gyfiawnder Crist. 2. Y rhai sy'n cymmeryd arnynt gredu yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb; ac o ran ei golygiadau yn hynod gywir am drefn iechydwrriaeth, a'r ffordd o gyfiawnhau dyn gyd â Duw. Ond y mae llawer yn boddloni gorphwys ar y wybodaeth hanesiol o Fab Duw, heb geisio dim yn ychwaneg na rhyw beth tebyg i ras, heb wir ras; ac o'r cyfryw y mae llaweroedd yn ein hamser ni, yn yr eglwys, ac allan o honi. Ac o herwydd nad oes ganddynt gadwedigol wybodaeth, a gwir ras yn yr enaid, fe'u gwelir yn curo wrth ddrws y nefoedd, a'r gair "nid adwaen i mo honoch" yn cael ei lesaru wrthynt gan y Priodfab. *Ar rhai hyn gochel di.* Dyma'r cyngor y mae'r Apostol yn ei roddi i Timotheus, sef ar iddo fod yn ofalus rhag cael ei niweidio trwy ymgyfeillachu â hwynt. *Phil 3. 2.* Y mae eu cyfeillach hwynt fel cancr yn ysu, *2 Tim. 2. 17.* ac fel rhwd yn llygru: y maent wedi bod o niwed mawr i eglwysydd, i deuluoedd, i'r byd a phersonau neillduol. Yr ydwyf yn bwriadu sylwi (trwy gymmorth Yspryd Duw) ar y geiriau, yn y drefn ganlynol:

- I. *Ymdrechaf i ddangos pa beth yw gwir dduwioldeb.*
 II. *Y dichon dynion fyned ymhell mewn pethan crefyddol, ac yu ymddifad o wir dduwioldeb.*
 III. *Yr unghenrheidrwydd i ochelyd y cyfryw.*
 IV. *Rhai casgliadau oddiwrth y cwbl.*

I. Y peth eyntaf i sylwi arno yw *duwioldeb*.

Ystyr y gair duwioldeb yw tebygolrwydd i Dduw, neu fyned ar ol Duw. Ond y mae'r gair, a'i gymmeryd yn yr ystyr helaethaf, yn cynnwys tufewnol ac allanol gydymffurfiaid â gair datguddiedig y Jehofah.

Y mae amryw bethau i'w hystyried, i'r diben o osod allan y gwirionedd pwysig hwn. Ni a gawn sylwi ar y pethiau hyn sydd yn gwneuthur i fynu wir dduwioldeb.

1. Y mae mewn gwir dduwioldeb wybodaeth gadwedigol o Dduw yn Nghrist, fel Duw'r iechydwriaeth, ac o'r Arglwydd Iesu Grist, fel digonol ac addas War-edwr i bechaduriaid. "Oblegid hyn yw'r bywyd tragwyddol, iddynt dy adnabod di, yr unig wir Dduw, a'r hwn a ddanfonaist ti Iesu Grist." *Ioan* 17. 3. Fe ddywedir am yr annuwiol, ei fod yn eistedd mewn tywyllwch; ac nid yn unig ei fod yn y tywyllwch, ond yn dywyllwch. "Yr oeddech chwi gynt yn dywyllwch." Wrth y tywyllwch hwn y deallir anwybodaeth, ac wrth y goleuni sydd gan y duwiol y deallir gwybodaeth. Pryd y mae'r Arglwydd yn gwneuthur dyn annuwiol yn ddaw-iol, y gwaith cyntaf y mae efe yn ei wneuthur, yw gol-suo'r deall, 'agoryd ei lygaid i weled purdeb Duw yn ei ddeddf; i weled ei gyflwr ei hun fel troseddwr euog a halogedig. Y mae'r Apostol yn gosod allan y gwaith hwn yn *2 Cor.* 4. 6. "Canys Duw yr hwn a orehymynodd i'r goleuni lewyrchu allan o dywyllwch, yw yr hwn a lewyrchodd yn ein calonau ni, i roddi i ni oleuni gwybodaeth gogoniaut Duw yn wyneb Iesu Grist. Ac yn ngoleuni Duw y mae'r enaid yn gweled mai pechadur truenus yw, ac felly yn cael ei argyhoeddi o bechod, o gyfiawnder, ac o farn; a'i gri yw, Pa beth a wnaf, fel y byddwyf gadwedig? Y mas ei annog i greda yn Nghrist yn newydd da ganddo.

2. Y mae mewn gwir dduwioldeb edifeirwch efengylaidd.

Y pryd y caffo enaid olwg ar Dduw, fel Duw anfeidrol sanctaidd, cyfiawn a da; a'i fod, o gariad at bechaduriaid, wedi rhoddi ei Fab i fyw a marw drostynt. Wedi cael golwg ar ei gyflwr llygredig a damniol, ei fod o'r bru wedi ymadael â Duw, a sathru tan ei draed er ddeddf sanctaidd ef; ac wedi rhyfela trwy ei holl fywyd yn erbyn y Duw a'i creodd, ac sydd yn ei gynnal, ac wedi gwrthod Crist y Gwaredwr; nis gall y cyfryw enaid lai nag ymostwng ger bron yr Arglwydd, a ffeiddio ei hun. Ond mewn peithynas i edifeirwch, y mae amrywiol o bethau i ni sylwi arnynt.

Y mae mewn gwir ac efengylaidd edifeirwch *alar-duwiol o herwydd pechod*. Pan y caffo enaid olwg ar Iesu yn gwaedu ar y groes, dan wg Duw, dynion, a Diabol, er mwyn pechaduriaid, nis gall amgen nâ bod yn alarus ac yn ddrylliedig o galon. Oddi yma y tardd edifeirwch efengylaidd; megis y dywed yr Arglwydd, "Hwy a edrychaut arnaf fi yr hwn a wanasant, galarant hefyd am dano, fel un yn galara am ei gyntafanedig, ac ymosfiant am dano ef, megis un yn gofidio am ei uniganedig." *Zec. 12. 10.*

Ymostyngiad o achos pechod.

Y mae pob un ag sydd wedi cael ei argyhoeddi o bechod, o gyfiawnder, ac o farn, yn gweled achos neillduol i ymostwng, a rhyfeddu Duw yn ei amynedd a'i ddaioni tu ag atto ef. Nid oes dim a ddwg ddyr i'r llwch, ond golwg ar sancteiddrwydd Duw. Fe welodd y prophwyd Esay ogoniant yr Arglwydd; ac yna mae yn gwaeddi allan, "Gwae fi, canys-darfus am danaf; oblegid gwr halogedig ei wefusau ydwyf fi, ac ym mys pobl halogedig o wefusau yr ydwyf yn trigo; canys fy llygaid a welsant y brenhin, Arglwydd y lluoedd." *Esay 6. 5.* Y mae Job yn profi yr un effeithiau oddiwrth ogoniant yr Arglwydd, pan y mae yn dywedyd, "Wele, gwael ydwyf:" "Myfi a glywais lawer o sôn am ddnat; ond yn awr fy llygaid a' th welodd di. Am hyny

“ y mae yn ffiacidd gènyf fi fy hun; ac yr ydwyf yn edifarhau mewn lluch a fludw.” *Job* 40. 4. a 42. 5, 6.

Casineb ato.

Pan'y sylwo enaid ar natur ac effeithiau pechod, ac yn erbyn pwy y mae efe yn gwrthryfela, sef yn erbyn Duw, a daioni dynion, nis gall lai nâ'i wir gasau. Ond yn Marwolaeth Crist y gwelir yr olwg ffeiddiaf arno.

Cyfaddesiad o hono. Hyn a gawn ni gan y Salmydd yn ei edifeirwch ger bron Duw. *Sal.* 32. 5. “ Addefais fy mhechod wrthyt, a'm hanwiredd ni chuddiais; dywedais, cyffesaf yn fy erbyn fy hun fy auwireddau i'r Arglwydd.” Nid cyfaddefiad ffurfiol a rhagrithiol ydyw; ond gwir, teimladwy, a duwiol gyfaddefiad yw.

Troedigaeth oddiwrtho. Yn lle bod y pechadur yn canlyn pechod, y mae pechod yn canlyn y pechadur. Y mae efe yn anghofio y pethau o'r tu cefn, ac y mae yn ymestyn at y pethau sydd o'r tu blaen, sef saneteiddrwydd.

Dymuniad difrifol am waredigaeth oddiwrtho. Y mae pechod wedi mynd yn faich iddo; yn lle bod yn bleser ganddo. Ei lef sydd yr un a'r Apostol, “ Pwy am gwared i oddiwrth gorph y farwolaeth hon?” *Rhuf.* 7. 24.

Yn ddiweddaf, y mae *gocheliad rhag pechu yn ol llaw*. Pa le bynag y mae'r enaid sydd wedi ei wasgu mewn edifeirwch, ac yn profi anfoddlonrwydd Duw am bechu yn ei erbyn, y mae'r cyfryw yn ochelgar rhag syrthio i'r un pyllau drachefn. *Sal.* 39. 1: “ Dywedais cadwaf fy ffyrdd, rhag pechu â'm tafod.” *Hosea* 14. 3. “ Ni ddywedwn mwyach wrth waith ein dwylaw, O ein duwiau.” “ Y cyfiawn a ddeil ei ffordd, a'r glân ei ddwylaw a chwanega gryfder.”

3. Y mae mewn gwir dduwioldeb anian sanctaidd i gydymffurfio â Duw, i ymhyfrydu ynddo, ac ufuddhau iddo. Y mae'r anian hon yn cael ei rhoddi yn yr enaid gan Yspryd Duw, ac wedi dyfod o'r nef; am hynny y dywedir, fod y duwiol wedi “ ei eni o Dduw, o ddwfr ac o'r Yspryd, a bod had Duw yn aros ynddo ef.” Y mae'r anian hon yn egwyddor o ras yn yr enaid, yn

preswyllo yno, ac yn llywodraethu. Y mae'r duwiol yn gyfnewidiol yn ei deimladau a'i brofiad, ond yr un o ran ei gyflwr. Y mae'r anian hon yn llywodraethau yn yr enaid mewn pob cynneddf, ac yn dwyn yr holl ddyrn mewn ufudd-dod iddi ei hun. "Fel megis y teyrnasodd pechod i farwolaeth, felly hefyd y teyrnasai gras, trwy gyfiawnder, i fywyd tragywyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd." *Rhuf.* 5. 21.

Yn ganlynol, fel ag y mae gras y fath frenhin, y mae'r ewyllys yn cael ei blygu, i ymostwng i'r Arglwydd, i fod yn foddlon i drefn Duw o gadw pechaduriaid. "Dy bobl a fyddant ewyllysgar yn nydd dy nerth," *Sal.* 110. 3. Y mae'r dyn yn foddlon i ymadael â phob pechod, a chodi'r groes a myned ar ol Iesu Grist. Fe all pob duwiol ddywedyd gyda'r Apostol, "Yr ewyllysio sydd barod."

Y mae'r *gydwybod yn cael ei deffroi*. Yn lle bod yn gysglyd ac anghyfiawn yn ei swydd, y mae hi yn gweithredu yn fywiog, y mae'r galon garreg yn cael ei thynnu ymaith, a chalou gig yn cael ei rhoddi yn ei lle. Ni ddioddef cydwybod i'r dyn bechu heb ddywedyd wrtho, ac y mae hi yn gydwybod dyner.

Y mae'r *serch yn gweithredu ar bethau ysprydol*; y mae hi yn cael ei hennill oddiar bethau cuawdol a drwg, a'i gosod ar Dduw a Chyfyngwr, a gwaith a phobl Dduw. Nid yw'r cariad sydd gan y duwiol at bob peth arall, tu yma i'r Arglwydd, ond ail beth. Y mae'r Arglwydd yn cael ei garu uwchlaw pob peth arall.

Y mae'r *cof yn cael ei sancteiddio, i gadw pethau ysprydol*. Nid oedd dim o bethau sanctaidd yr Arglwydd yn cael eu trysori ynddo o'r blaen; ond yn bresennol y mae geiriau Duw yn cael eu rhoddi yn y drysorfa hon.

Y mae'r *meddwl a'r syniadau yn ysprydol*. Y maent yn myfyrio yughyfraith yr Arglwydd. *Rhuf.* 7. 22. Y mae'r anian newydd yn llywodraethu holl aelodau'r corph. Y mae'r llygaid yn cael eu troi rhag edrych ar wagedd, i edrych i mewn i air Duw, i ymofyn pa beth yw ewyllys yr Arglwydd. Y mae'r tafod, yr aelod anlywodraethus, yn dywedyd y gwir. Yn lle bod yn

rhydd i ddywedyd geiriau gwageddol, y mae ffrwyn yn cael ei gosod yn y genau, "Oblegid yr hwn ni allo attal ei dafod, ofer yw crefydd hwnw." Y mae'r dwylaw oedd o'r blaen yn barod i dywallt gwaed, yn bresennol yn arfau cyfiawnder i Dduw. Y traed, oedd yn rhedeg i ddrygioni, sydd yn bresennol yn rhodio llwybrau'r Arglwydd. Ac fe ellir terfynu hyn gan ddywedyd yn ngeiriau yr Apostol, "Fod yr aelodau yn arfau cyfiawnder i Dduw," *Rhuf.* 6. 13. a bod y duwiol "yn greadur newydd; a bod yr hen bethau wedi myn'd heibio, a phob peth wedi ei wneuthur yn newydd." *2 Cor.* 5. 17.

4. Y mae mewn gwir dduwioldeb garu Duw, ei waith, a'i bobl.

Fe ddywedir am Dduw, "mai Duw'r cariad yw, a phob un nid yw yn caru, nid yw o Dduw; oblegid yr hwn sydd yn caru o Dduw y ganed ef," *Ioan* 4. 7. 8.

Y mae llawer o wir dduwiolion yn ofni nad ydynt yn caru Duw yn wirioneddol; ond pe byddai iddynt gael eu dwyn i amgylchiad i gael eu profi, sef cael devisiad, o gollu eu bywyd, neu ymadael â Duw a'i waith, datguddient yn fuan eu bod yn ei garu ef yn fwy na'u bywyd. Nid cariad cydradd yw hwn ond cariad uwchlaw pob rhyw gariad arall. Nis gall yr Arglwydd lai na charu ei hun, oblegid ei fod yr hyn ydyw; ac felly nis gall duwiolion beidio ei garu am ei fod yr hyn ydyw. Nid ydynt yn canfod un gwrthrych mor ogoneddus ag ef. *Y maent yn caru ei waith ef.* Mae gwaith Duw yn bleser ac yn hyfrydwch iddynt. Pa beth bynag y mae efe yu ei orchymyn iddynt i wneyd, y mae ei orchymynion yn esmwyth, a'i faich ef yn ysgafn ganddynt, oblegid eu bod yn ei garu ef.

Maent yn caru ei bobl ef. Y mae'r Apostol Ioan yn gosod hyn ar lawr fel prawf anffaeledig o'n cariad tu ag at yr Arglwydd; "Pob un a'r sydd yn caru yr hwn a genhedlodd, sydd yn caru hefyd yr hwn a genhedlwyd o hono ef." Os ydych chi yn caru dynion am eu bod yn perthyn i Dduw, ac yn dwyn ei ddelw ef, yr ydych chi yn caru Duw. Nid ein seret a'n parti ein hunain, ond pawb a'r sydd yn canlyn ein Haiglydd Iesu Grist.

Maent yn caru gorchymynion yr Arglwydd. Sal 119. 127. "Am hynyr hofais dy orchymynion yn fwy nag aur." *Maent yn caru ymddangosiad yr Arglwydd. 2 Tim. 4. 8.* "Ond hefyd i bawb a garant ei ymddangosiad ef." Nid cariad rhagrithiol yw hwn, mewn ymddangosiad yn unig, ond cariad diragrith, gwirioneddol, a pharhaus yw. "Dyfroedd lawer nis gallant ddiffoddi'r cariad hwn" *Can 8 7.* Ni all holl wg a gwawd y byd, erledigaethau, na marwolaeth, ei ddinistrio.

5. Y mae mewn gwir dduwioldeb ofni Duw. Fe ddywedir am yr annuwiol, "Nad oes ofn Duw o flaen ei lygaid." Ond am y duwiol fe ddywedir ei fod yn "ofni Duw, ac yn cilio oddiwrth ddrygioni," *Job 2. 3.* Nid yw yr ofn hwn yn ofn deddfol ac annuwiol, ond ofn parchus, mabaidd a sanctaidd yw.

Y mae mewn duwiol ofn, *barch gostyngedig i Dduw.* Nis gall beidio â bod felly, pa'u y gwelo pechadur ogoneddus berffeithiadau y Duwdod, ei fod yn lanach ei lygaid nag y gall edrych ar ddrwg. Nid oes un olwg ar Dduw ag sydd yn rhwymo enaid i'w ofni yn fwy na golwg grediniol ar sancteiddrwydd yr Arglwydd. Gwelwn siampl o hyn y yn y Seraphiaid. *Esay 6. 3.* hefyd *Jer. 10. 6, 7.*

Y mae mewn ofni Duw *ofal parhaus i beidio ei anfoddloni.* Yr achos o hyn yw cariad at yr Arglwydd, a gwir ddymuniaid am ei ogoneddu. Y dyn nad yw yn caru Duw, nid yw yn edrych am beidio ei anfoddloni. Pa ham y mae plentyn yn ofni digio ei dad? oblegid ei fod yn ei garu. Y mae arswyd yn yr enaid duwiol rhag digio ac anfoddloni yr Arglwydd. Fe ddywed y Salm-ydd "Mae fy nghawd yn arswydo gan dy ofn, ac yr ydwyf yn ofni dy farnedigaethau." Fe ddywed y prophwyd *Esay* eiriau teilwng o'n sylw. "Arglwydd y lluoedd ei hun a sancteiddiwech; a bydded ese yn ofn i chwi, ac yn arswyd i chwi," *Esay 8. 13.* Peidio ofni Duw yn wyneb ei anfoddlonrwydd, a fyddai yn anystyriaeth mawr, ac yn arwydd o neillduol galedwch.

Y mae mewn ofn duwiol *ufudd-dod i ewylllys Duw,* gwiliadwriaeth rhag ei anfoddloni, a gwir ddymuniaid i

gydymffurfio â'i holl orchymynion. Dyma'r ofn y mae'r ysgrythyr yn ein hannog i ymosyn am dano, a chynyddu yuddo. Dyma'r ofn oedd yn dwyn Joseph i ddywedyd, "Pa fodd y gwnaf fi y mawr ddrwg hwn a phechu yn erbyn Duw?" *Gen.* 39. 9.

Y mae'r ofn hwn yn dwyn dynion i ymddwyn yn y dirgel yn bur, pan nad oes neb creaduriaid yn eu gweled. Dyma fel yr oedd Joseph : ond beth am hyn? nid dynion yw gwrthrych yr ofn yma, ond Duw. Nid yw holl fygythiadau, na deniadau dynion a Diafol, yn ddigon i'w dwyn i beidio ofni Duw.

Mae yr ofn hwn mor gadarn, fel ag y mae yn well gan y duwiol ddioddef fel y tri llawc, i fyn'd i'r ffwrn dân, ac, fel Daniel, i fyned at y llewod, nâ gwadu Duw'r nefoedd, ac anufuddhau iddo. Duw a gyfranno lawer o'r ofn hwn i ni.

6. Y mae mewn gwir ddawioldeb, ffydd yn Nghrist.

Y mae amrywiol o eiriau yn gosod y gwirionedd hwn allan yn y gair. *Credw yuddo.* Wedi i bechadur glywed am Grist, fel Gwardwr, a gwybod ei eisiau o hono, y mae efe yn cael annogaeth gan yr Arglwydd yn ei air, "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist a chadwedig a fyddi." *Act.* 16. 31. Amhossibl yw gwir gredu yn Nghrist, heb gredu am dano yn iawn. Y mae credu am dano i gymmeryd lle cyn y gellir credu yuddo. "Pa fodd y credant yn yr hwn ni chlywsant am dano?" *Rhuf.* 10. 14.

Gwneyd derbyniad o hono. Ar ol gweled gogoniant Crist, ei ddigonolrwydd, ei addasrwydd, a'i ewyllysgarwch, y mae'r enaid teimladwy o eisiau Gwardwr yn derbyn Crist yn Waredwr iddo. *Ioan* 1. 12.

Ymddiried yuddo. Yr enaid sydd wedi ei guro allan o hono ei hun, wedi colli ei fywyd yuddo ei hun, ac wedi canfod gogoniant Crist, megis yr unig-anedig oddiwrth y Tad, yn llawn gras a gwirionedd, mae yn ymddiried yn Nghrist; yn nigonolrwydd y Cyfryngwr; yn addasrwydd ei berson, rhinwedd ei aberth, a digonolrwydd ei iawn. Y mae yn ymddiried yuddo fel prophwyd i'w ddyegu, offeiriad i'w gymmodi â Duw, ac i eiriol drosto; ac fel brenhin i lywodraethu yuddo, ac i'w gyanorthwyo

i ryfela â'i elynion; a thrwyddo ef i gael yr oruchafiaeth arnynt oll.

Pwyso arno. Dyma'r unig sylfaen y maent yn adeiladu arni. Yn wyneb eu holl feichiau, y mae'n dda iddynt fod un i bwyso arno i'w dal i'r lan. "Pwy yw hon sydd yn dyfod i fynu o'r anialwch ac yn pwyso ar ei hanwylgd?" *Can. 8. 5.* Mae Sion fel gwraig lesg a gwan; nis gall hi wneuthur dim, na cherdded cam ymlaen, heb bwyso ar ei Phriod. Ond er ei bod hi yn wan, y mae ganddi Briod cadarn. Arno ef y mae hi yn pwyso am bob peth. Mwy o'n pwys ninnau a fyddo arno.

Glynu wrtho. Y mae genym lawer o siamplau o hyn. Yr oedd Pedr a'r dysgyblion eraill yn glynu wrtho pan dywedasant, "Arglwydd, at bwy yr awn ni." *Ioan 6. 68.* "Pe lladdai efe fi, etto mi ymddiriedaf ynddo." Yr oedd y wraig o Ganaan yn glynu wrtho yn barhaus; Felly fe lyna gwir dduwiolion gyd ag ef yn y tywydd garw.

7. Y mae mewn gwir dduwioldeb, hunan-ymroddiad i Dduw, ei waith, a'i bobl.

Y mae'r Arglwydd yn cael dynion yn gyndyn wrth natur. Ond trwy weithredu yn eu heneidiau, y maent yn cael eu gwneuthur yn ufudd i Dduw; eu llef yn ganlynol yw, beth a fynni di imi wneuthur? Yna y mae'r gair a'r Yspryd yn eu cyfarwyddo pa beth i wneud, Y mae'r cyfryw yn cymmeryd yr Arglwydd i fod yn Dduw iddynt, *Deut. 26. 17.* Y maent yn rhoddi eu hunain i Dduw, gorph ac enaid, a'r cwbl oll ag a foddont. "Hwn a ddwyed, eiddo'r Arglwydd ydwyf fi; a'r llall a'i geilw ei hun ar enw Jacob; ac arall a sgrifena â'i law, eiddo yr Arglwydd ydwyf, ac a yingysenwa ar enw Israel," *Esay 44. 5.* "Deuwch, meddant, glyuwn wrth yr Arglwydd, trwy gyfammod tragywyddol," *Jer. 50. 5.*

Y mae'r duwiol nid yn unig yn rhoddi ei bun i Dduw mewn cyfammod drigelaidd trwy *aberth*, *Salm 50. 5.* ond hefyd yn allauol; yn ol cyugor yr Apostol. "Yr ydwyf yn attolwg i chwi, frodyr, er trugareddau Duw; roddi o honoch eich cyrph yn aberth, byw, sauctaidd, cymmeradwy gan Dduw yr hyn yw eich rhesymol wa-

sanaeth chwi." *Rhuf.* 12. 1. Drachefn, Y mae'r duwiol yn ymroddi i ofni'r Arglwydd, ei wasanaethu, a'i barchu. Y mae efe yn rhoddi ei aelodau yn arfau cyfiawnder i Dduw, yn ymrwymo mewn cyfammod eglwysig, i broffesu ac arddel Crist ger bron pawb; ac yn dymuno treulio ei amser i fod o ryw ddefnydd tros yr Arglwydd; i ddywedyd yn dda am dano, ac annog pawb i'w wasanaethu. Fel ag y dywed yr Apostol am y Corinthiaid, "eu bod wedi rhoddi eu hunain yn gyntaf i'r Arglwydd, ac i'w bobl yn ol ei ewyllys ef." Y mae'r duwiol yn cyssegru yr hyn oll a feddo i Dduw; yn anrhydeddu'r Arglwydd â'i holl gyfoeth. Y mae efe yn ymroddi i godi'r groes, ac yn foddlon trwy ddwyfөл gymmorth i ddyoddef dirinyg a gwaradwydd er mwyn Crist. Megis y dywed yr Apostol, *Act.* 20. 24. "Nid gwerthfawr genyf fy einioes fy hun." Y mae gogoniant yr Arglwydd yu fwy yn ei olwg nâ'i fywyd ei hun.

8. Y mae mewn gwir dduwioldeb, weddio.

Y mae yn hanfodol i dduwioldeb, weddio. Yr oedd hyn yn ddigonol brawf i Ananias fod Saul o Tarsus yn dduwiol, "Wele, y mae yn gweddio." *Act.* 9. 11. I'ê ddywed y Salmydd, "Am hynny y gweddia pob duwiol arnat ti yn yr amser y'th geffir." *Sal.* 32. 4. Nis gall yr enaid a aned o Dduw, fyw heb weddio, *Seph.* 3. 10. Nid rhyw fath o weddio ydyw, Am hynny sylwaf ar wir weddio, yu y dull canlynol.

Gwrthrych gweddi yw Duw. Y mae llawer o greaduriaid Duw mor ddall a gweddio ar y seintiau. Duw yw unig wrthrych gweddi "Ti yr hwn a wrandewi weddi, attat ti y daw pob cnawd." Y mae y rhan hon o addoliad yn perthyn i Dduw yn unig, *Math.* 4. 10. *Eph.* 3. 10.

Yn enw Crist y dylem weddio. "Yn yr hwn y mae i ni ddyfodfa mewn hyder trwy ei ffydd ef." *Eph.* 3. 12. "Efe yw'r ffordd, ac nid oes neb yn dyfod at y Tad, ond trwyddo ef." Ei dystiolaeth ef ei hun yw, "Os gofynwch ddim i'r Tad yn fy enw i, efe a'i rhydd i chwi." *Ioan* 16. 23. Gweddi heb Grist ynddi, sydd ffaidd gan yr Arglwydd; oblegid mae gan yr Eiriolwr y mae'r

Aroglarth sydd yn gweuthur gweddïau'r saint yn gymmeradwy ger bron Duw.

Yr Yspryd Glân sydd yn cynnorthwyo mewn gweddi.
Am hyny fe'i gelwir yn Yspryd gras a gweddïau, *Zec. 12. 10.* Mae'r Yspryd ei hun yn erfyn trosom, âg ochneidiau anrhaethadwy. Mae efe yn ein tueddu a'u cymmell i weddiö, yn ein dwyn tan deimlad o'r hyn sydd yn eisiau arnom, yn ein cyfarwyddo pa fodd i ofyn, ac yn gosod ynom hyder ffyddiog o'fwynhâd o'r bendithïou; trwy Iesu Grist.

Nattur gweddi. Y mae llawer o bethau yn gynnwysedig mewn gwir weddiö; sef bod y pechadur tan deimlad o'i gyfwr ei hun, fel y cyfryw. Yr oedd hyn allan o olwg a theimlad y pharisead yn y deml; ond yr oedd y publican tan deimlad o'i fod yn bechadur anghenus. Yr oedd yn cwmpo wrth yr orsedd, i law trugaredd rad.

Gofyn yn enw Cyfryngwr y mae'r gwir weddiwr, gan ddadleu y boddlonrwydd ar lawm a roddodd Crist tros bechaduriaid i gyfiawnder, a'r anrhydedd a roddodd efe i'r ddeddf.

Y mae efe yn dysgwyl am fwynhâd o'r hyn sydd yn eisiau arno; ac nid fel y mae y rhagrithiwr yn gofyn bendithion, heb feddwl am eu mwynhau. "Disgwyliaf holl ddyddïau fy milwriaeth, hyd oni ddelfo fy nghyfnewidiad. Disgwyl fy enaid wrth yr Arglwydd;" Dyna fel y mae'r gwir weddiwr. Nid â y cardottyn tlawd ynaith yn fuan, er cael llawer o eiriau chwervon, oblegid y mae eisiau arno. Yr oedd hyn i'w weled yn y wraig o Ganaan: er cael llawer o eiriau chwervon gan Grist, yr oedd hi yn ymwasgu y'mlaen, ac yn cyfaddef mai un o'r cwn oedd hi, etto, meddai hi, "y mae'r cwn yn cael y briwsion sydd yn syrthio tan fwrdd eu harglwyddi." Yn wyneb ei thærui, fe ddywedodd Iesu, "Ha wraig, mawr yw dy ffydd, bydded i ti fel yr ydwyt yn ewyllysio." Yr oedd Jacob yn daer am y fendith; ac efe a'i cafodd.

Y mae gweddi naill ai yn *dirgelaidd*, megis gan Moses wrth y môr coch, *Exs. 14. 15.* a chan Hanna yn y deml, sef erfyniadau yr enaid mewn modd dirgelaidd

ger bron Duw: fel y dywedodd un, bod y wedd hon yn myned heibio i'r Diafol, heb iddo wybod am dani. Mae ein Duw ni yn gwrando ochneidiau'r carcharorion. Neu yn *deuluaidd*. Yr oedd Josua a'i deulu yn gwasanaethu'r Arglwydd. *Jos. 24. 15.* Yr oedd Cornelius yn ofni Duw, a'i holl dŷ. Peth gweddaidd yw codi allor i Dduw yn y teulu.

Neu yn *eglwysig*. Fe ddywed yr Arglwydd Iesu am dŷ Dduw, mai tŷ gweddi ydyw.

Tros bwy y dylid gweddio. Dylai dyn yn sicr weddio trosto ei hun; os esgeulusa efe hyn, y mae'n sicr na ofala i weddio tros eraill. Y mae'n ddyledswydd gweddio tros frenhinogedd, a phawb sydd mewn swyddau gwladol ac eglwysig. *1 Tim. 2. 1.* tros ein gilydd. *Eph. 6. 18.* a throso weinidogion y gair; *Eph. 6. 19. 2 Thes. 3. 1.* Pe byddai eglwysydd yn ystyried pwys y gwaith aydd yn gorphwys ar eu gweinidogion i'w gyflawni, ni fyddent mar anffyddlon tu ag attynt yn eu gweddiau, dirgel, a chyhoedd. Hynod mor anhawdd yw pregethu i ddynion professedig, a diweddi. Dyledswydd eglwysydd yw tebygoli i Aaron a Har, oedd yn cynnal i fynu freichiau Moses. Dymuniad yr Apostol Paul oedd, "O! frodyr, gweddiwch trosom." Nis medraf wybod pa fodd y gall dynion fod â chydwybod rydd ger bron chwiliwr y galon, ac yn esgeuluso gweddio tros, ac ar ran eu gweinidogion. Duw a dywallto yspryd gweddi ar ei eglwysydd, fel y delont i adnabod eu lle.

Yn ddiweddlaf, rhaid yw gweddio tros ein gelynyon, am i'r Arglwydd droi eu calomau, a'u dwys i ymofyn am gymunod â Duw yn y gwaed: a'r canlyniad fydd, "y blaidd ar oen a drigant yn nghyd. *Esay 11. 6.*

9. Y mae cynnydd yn berthynol i wir ddnwioledeb. Mae'r gwir gristion, yn y munud yr ail-enir ef, yn *ddyn newydd*, perffaith o rannau; er nad yw felly mewn graddau. Mae pob aelodd o'r dyn newydd yn berffaith o ran rhif; er nad yw felly mewn maintioli. Nid oes achos i chwaneu attynt, ond ar eu cynnydd. Na feddylid plentyn Duw, nad yw ef yn ddyn newydd, a

herwydd na all efe ddŵwedyd a gwnëdyd fel y rhai sydd wedi cynnyddu mewn niaintioli ysprydol, ac yn agos i fod yn eu cyflawn oed, i fyued i feddianuu yr etifedd-iaeth.

Pa le bynag mae gwir dduwioldeb, y mae yno gynnydd. Y mae hyn yn cael ei brofi gan yr Yspryd Glân, trwy gyffelybu duwiolion i goed cynnyddgar, sef i brennau wedi eu plannu ar lan afonydd dyfroedd, *Sal.* 1. 3. i ardd wedi ei dyfrhau, *Esay* 58: 11. ac i helyg wrth ffrydiau dyfroedd, *Esay* 44. 4. Ac y mae llwybr y cyfiawn fel y goleuni, yr hwn a lewyrcha fwy-fwy hyd ganol dydd. *Diar.* 4. 18. Dywedir am dano, "y cyfiawn a flodeua fel palmwydden, ac a gynnydda fel ced-rwydden yn Libanus," *Salm* 92. 12. "Efe a flodeua fel y lili, ac a leda ei wraidd megis Libanus." "A ehwi a ewch allan, ac a gynnyddwch megis lloi pasgedig." *Mal.* 4. 2. Oddiwrth yr ysgrythyrau uchod, y mae yn amlwg, bod cynnydd ar dduwioldeb yn y dynion lle mae hi.

Cynnydd cydradd ymhob aelod, ydyw.

Fel ag y mae bywyd o ras yn gweithio trwy'r holl ddyn newydd, felly y mae'r holl ddyn yn cynnyddu. Fe all llawer gynnyddu mewn gwybodaeth, a doniau mewn gweddi, &c. ac heb ddim sancteiddrwydd. Ond nid felly y mae'r duwiol; mae efe yn cynnyddu mewn gwybodaeth, sancteiddrwydd, ofn parclus, gostyugeiddrwydd, dioddefgarwch, ffydd, gobaith, cariad, &c. Y mae'r cynnydd hwn yn cael ei osod allan trwy amrywiol gyffelybiaethau. Weithiau tebygir ef i hedyn yn cael ei hau mewn maes, *Math.* 4. 28. i ronyn o had mwstard, i surdoes mewn blawd, *Math.* 13. 31, 32, 33. i oleuni, yr hwn sydd yn cynnyddu fwy-fwy. Felly y gwna duw-duwioldeb, nes y llyngcir yr hyn sydd farwol gan fywyd.

10. Y mae mewn gwir dduwioldeb gymdeithas â Duw. "A'n cymdeithas ni yn wir sydd gyd â'r Tad, a chydâ i Fab ef Iesu Grist." I *Ioan* 1. 3. Y mae hyn yn hanfodol i wir dduwioldeb, oblegid bod anian Duw yn trigo yn y duwiol; ac y mae natur yr anian hon, i gymdeithasu â Duw pur. Oddiwrtho y mae'r duwiol yn

derbyn ei gynhaliath ysprydol, a'i ddymuniad yw cael rhodio gyd âg ef, oblegid ei fod yn ei garu ef, yn fwy na phob peth arall. Mae'r enaid wedi ei ennill, gan ras Duw, oddiwrth bob cymdeithas bechadurus; ac y mae yn rhaid i ddyn gymdeithasu â rhyw wrthrych, Y gwrthrych a fyddo dyn yn ei garu, gyda hwnw bydd ei gymdeithas. Duw yw gwrthrych cariad y duwiol; ac am hyny y mae ei gymdeithas gyd âg ef.

Natur y gymdeithas. Wrth gymdeithasu â'r Arglwydd, yr wyf yn deall, bod anian y duwiol a natur Duw yn un: "Fel y byddem gyfrannogion o'r dduwiol anian." 2 *Pedr* 1. 4. Trwy fod hon yn gweithredu, y mae ewyllys y duwiol ac ewyllys Duw yn un. Y mae y meddwl yn cymdeithasu â Duw, a'r serch yn gweithredu ar yr Arglwydd. Y rhai sydd yn mwynhau y gymdeithas hon, y mae ganddynt feddwl Duw; maent yn ymhyfrydu ynddo, ac yn hiraethu am gael myned atto. Y mae llawer yn twyllo eu hunain yn y matter hwn; "Os dywedwn fod i ni gymdeithas âg ef, a rhoïo yn y tywyllwch, celwyddog ydym, a'r gwirionedd nid yw ynom," 1 *Ioan* 1. 6, 7. Ond os rhodiwn yn y goleuni, megis y mae efe yn y goleuni, y mae i ni gymdeithas â'n gilydd." Y mae'r gymdeithas hon yn cynnwys, bod Duw a phechadur yn cyd-feddwl, yn cyd-ewyllysio, yn cyd-farnu, yn cyd-garu ac yn cyd-gasat, &c.

Y mae'r gymdeithas yma â Duw yn gynnwysedig mewn gwybod ei ewyllys ef, *Job* 22. 21. *Ioan* 17. 3. cyttuned âg ef. *Amos* 3. 2. mwynhâd o'i bresennoldeb, *Salm* 4. 6. a chydymffurfiaid âg ef. 1 *Ioan* 2. 6.

Y mae holl gyflawnder y Cyfryngwr yn drysor rhydd i'r pechadur, yn wyneb ei holl eisiau: ac y mae yn cael tywallt ei holl achwyniadau a'i ofidiau, megis i'w synwes. Y mae âchos y pechadur yn hollol yn ngofal Duw; y mae hiraeth gwirioneddol yn enaid y pechadur am ogoniant i enw a llwyddiant i achos Duw yn y byd. Y mae'r gymdeithas hon, hefyd i'w mwynhau yn holl ordinhadau Duw. Weithiau y mae'r enaid duwiol yn ymdywallt ger bron Duw mewn galar duwiol; weithiau yn ymgysuro yn nghyflawnder yr iechydwrriaeth, a gras-

lonrwydd yr addewidion; ac hefyd y mae'r gorchymynion, yn eu huniondeb a'u sancteiddrwydd, yn hyfrydwch ac yn orfoledd iddo. Y mae yn gweled, âg wyneb agored, ogoniant yr Arglwydd yn ei wirioneddau, megis mewn drych, ac yn cael ei gyfnewid yn fwy-fwy ar ei ddelfw ef.

11. Y mae mewn gwir dduwioldeb, obaith gogoneddus. Dywedir am yr annuwiol ei fod heb obaith, *Eph. 2. 12.* Y mae llawer yn meddwl fod ganddynt obaith, ac y bydd iddynt gael nefoedd wedi marw, pan nad yw eu gobaith ond tebyg i wê y pryf coppyn; "efe a bwysa ar ei dŵ, ond ni saif." Pob gobaith heb ei sylfaenu ar aberth Crist, a ddaw i'r dim.

Ond sylwaf ar obaith y duwiol. Disgwyliad ydyw am bob peth anghemheidiol mewn amser a thragwyddoldeb; wedi ei sylfaenu ar addewidion a pherffeithiadau Duw, ac ar swyddau, cyfiawnder, ac eiriolaeth Crist.

Y mae yn cael ei ddisgrifio yn y gair yn *obaith pur*: i *Ioan 3. 2.* oblegid ei fod wedi cael ei roddi gan Yspryd pur, ac o herwydd ei fod yn puro'r ehaid. "Y mae pob un sydd ganddo y gobaith llwn ynddo ef yn ei buro ei hun, megis y mae yntau yn bur." *Ioan 3. 3.* Yn *obaith da*, 2 *Thess. 2. 16.* Y mae yn cael ei alw felly mewn cyferbyniad i obaith y rhagrithiwr; ac oblegid mai oddiwyth Ddow da y daeth; ac ynddo y mae yn terfynur. *Gobaith byciol.* i *Pedr. 1. 9.* Y mae yn cael ei alw felly, oblegid ei fod yn dwyn yr enaid i fod yn fywiog, a dim llai na bywyd tragywyddol mewn golwg ganddo. *Gobaith sicr.* *Heb. 6. 19.* oblegid na thwyllir mo hono; ac am ei fod ar sail sicr, ac yn disgwyl am gyflawniad o addewidion sicr, y rhai sydd yn ie ac yn amen yn y Cyfryngwr. Yn ddiweddaf, gobaith ydyw, sydd yn dwyn yr enaid i lawenhau mewn gorthrymderau, yn yr olwg ar y pethau sydd ar ol hyn i gael eu mwynhau, *Rhuf. 5. 2, 3.*

12. Y mae mewn gwir dduwioldeb ymddygiad addas tu ag at ein cyd-greaduriaid.

Swm y gyfraith foesol yw, "car yr Arglwydd dy

Dduw a' th holl galon &c, a' th gymmydog fel ti dy hun." Yr ydym wedi sylwi yn barod ar tym duwioldeb tu ag at Dduw; ac yma yr ydym i sylwi ar y gangen homo o ddawfoldeb, sef ein hymddygiadau tu ag at ein cyd-greaduriaid.

Y mae'r holl gyfaith a'r prophwyd yn sefyll ar y rhan-hau, yn gystal a'r llall. *Math. 22. 39, 40.* Wrth ein cynnydog yr ydym i ddeall, nid yn unig yr hwn sydd yn byw yn agos attom, ond hefyd dynol-ryw yn gyffredinol, *Luc 10. 29. 37.* Nid oes ini feddwl fod dyn i gaol ei garu i'r un graddau a Duw; ond fel y mae cariad yn ein rhwymo i gyffawni dyledswyddau tu ag at Dduw, felly y mae cariad tu ag at ein cyd-greaduriaid yn ein rhwymo i ymddwyn yn addus tu ag attynt hwythau. Ond, i sylwi ychydig yn fwy manwl, caf ranmu ymddygiadau, duwioldeb tu ag at ein cyd-greaduriaid yn wahanol ganghenau.

Caru ein cyd-greaduriaid. Fe ddylai cariad fod yn ddiragrith, yn wresog, yn gyson, ac yn barhaus. Ni ddi-oddef cariad i ddyn ewyllysio drwg i arall, yn fwy nag iddo ei hun, nac ychwaith i ymhyfrydu yn ffaeiddan, a ehwympiadau eraill. Mae Crist yn rhoddi esponiad byr; cynhwysfawr, ac eglur ar y gangen hon. "Pa beth bynag oll a ewyllysioch eu gwneuthur o ddynion i chiwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy." *Math. 7: 12.* Drachefn, y mae esponiad y Scrifenyddion ar gariad tu ag at ein cynnydog yn cael ei roddi i foddioni natur lygredig, sef; "Câr dy gymnydog a chasâ dy elyn." *Math. 5. 43.* Dyma grefydd holl blant Adda mewu cyffwr o elyniaeth tu ag at Dduw. Dyma'r grefydd y nrae cnawd yn ei ddsu hui. Ond y mae'r Arglwydd Iesu yn dangos i'w ddysgyblion pa beth yw crefydd y Bibl, sef, "Caru ein gelynyon, bendithio y rhai a'n mellethiant, gwneuthur da i'r rhai a'n casânt, a gweddio tros y rhai a'n drygant." *Math. 5. 44.* Fe all natur fyned mor bell a charu y rhai a'n câr ninnau, ond fe â dawioldeb ymhellach, sef, caru gelynyon.

Ymddwyn yn gyfiawn. Y mae'r ysgrythyr yn di- grifio duwiolion tan yr enw rhai *cyfiawn*, a'r rhai yn gwneuthur *cyfiawnder*. "Yr hwn a rodia'n berffaith,

ac a wnel gyfiawnder." *Salm* 15. 2. "O blant bychain, na thwyll neb chwi, yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn, (hyny yw, yr hwn sydd yn ymddwyn yn gyfiawn) megis y mae yntau yn gyfiawn." (sef Duw) 1 *Ioan* 3. 7. "Yu hyn y mae'n amlwg blant Duw a phlant Diafol; pob un a'r sydd heb wneuthur cyfiawnder, nid yw o Dduw." Ofer yw erefydd pob un sydd heb egwyddor ac ymarweddus cyfiawn. Dyna gonest o galon yw'r cyfiawn, ac y mae yn dda ganddo feddwl fod Duw yn chywilio'r galon; "Wele Israeliad yn wir yn yr hwn nid oes twyll." *Ioan* 1. 47. Y dyn ag sydd yn rhydd i wneuthur anghyfiawnder a'i gyd-gnadau, nid oes efn Duw o flaen ei lygad.

Yn drugarog. Y mae'r dawidiolion wedi derbyn trugaredd, am hyny maent yn dangos trugaredd i eiddh Trugarogion y maent yn cael eu galw, *Math* 5. 7. Y mae peidio bod yn drugarog yn bethod i'w gopi gan y Barnwr. Gwelwn hyn yn cael ei brofi, yn *Math* 18. 27, 35. "Pan oedd un mewn dyled i'w Arglwydd o ddeng mil o dalentau, fe fadduodd ei arglwydd iddo, am iddo ymbil âg ef. Ond pan y cafodd hwn afael yn ei gydwas, oedd mewn dyled iddo ef, ni wrandwodd ar ei daer ymbil, am fod yn ymarhous, ond mayned a'i fwrw ef i garchar. Ond pan clywodd ei arglwydd ei fod wedi ymddwyn mor anrugarog tu ag at ei gydwas, fe'i galwodd atto, ac a ddywedodd, "Oni faddenais i ti yr holl ddyled honno am i ti ymbil â mi. Ac oni ddylesit tithau drugarhau wrth dy gydwas, megis y trugarheais innau wrthyt ti. A'i arglwydd a ddigiodd, ac a'i rhoddodd i'r poenwyr. Ac felly y gwna fy Nhad nefol i chwithau; oni fadduwch o'ch calonnau bob un i'w frawd eu camweddu." Gwelwn hefyd eiriau pendant yn cael eu cynnwysu gan Grist at ei ddysgyblion. "Oblegid os maddeuwch i ddyuion eu camweddu, eich Tad nefol a faddew hwyd i chwithau." *Math* 6. 14.

Yn gydymdeimlgar. Mae'r galon garreg yn cael ei thynnu ymaith; a chalou gig yn cael ei rhoddi yn ei lle. *Exec*. 36. 26. Y mae pechod wedi gwnöyd dynol-ryw yn galed, fel nad ydynt yn cydymdeimlo â'r rhai sydd

mewn tlodi, gwasgfaon, &c. Ond y mae gras yn dwyn dynion i'w lle, i ymddwyn yn ddynol, ac i wisgo ymysgarodd tosturiaethau, tu ag at y rhai a fyddo mewn gwasgfaon. Y mae'r Apostol yn annog crefyddwyr i gyd-ddwyn beichiau eu gilydd, ac felly cyflawni cyfraith Crist. Y mae'r Apostol yn dywedyd, ei brofiad am y matter hwn. "Pwy sydd wan nad wyf finnau yn wan? pwy a dramgwyddir nad wyf finnau yn llosgi?" *2 Cor.* 11. 29. Pe byddai mwy o'r gras o gydymdeimlo mewn eglwysydd, fe fyddai mwy o ofal rhag rhoddi tramgwydd i neb o'n cyd-greaduriaid. Drachefn, Mae'r un Apostol yn chwaneu ar y gwirionedd hwn, pan y mae yn dywedyd, "Os yw bwyd yn tristau fy mrawd, ni fwyttaf fi gig byth, rhag imi rwystro fy mrawd." *1 Cor.* 8. 13. Ac yna y mae yn rhoddi cyngor i'r eglwys. "Byddwch ddiachos tramgwydd i'r Iuddewon, ac i'r Cenhedloedd hefyd, ac i eglwys Dduw." *1 Cor.* 10. 32. Pe byddai'r gwirionedd hwn yn cael mwy o le gyd a dynion, a'i arferyd yn amlach, fe fyddai mwy o gariad ymblith dynion, ac achos Duw yn fwy llwyddiannus. Yr Arglwydd a baro fod y gras yma yn blodeuo'u fwy yn ein plith.

Yn eira'r. Y mae'r celwyddwyr yn cael eu gosod ymblith y rhai a fydd y tu allan i'r nefoedd, *Dat.* 22. 15. Mae pob ddiawl yn dywedyd y gwir, *Eph.* 4. 25. "Oblegid pwy bynag na allo attal ei dafod, (rhag dywedyd celwydd) ofer yw crefydd hwnw." "Y dyn da, o drysor da ei galon, a ddwg allan bethau da; o herwydd mai o helaethrwydd y galon y llefara'r genau."

Yn ymdrechu gwneuthur cynmaint ag a ellir o lesâd i gorph ac enaid dynol-ryw. Trwy fod yn elusengar i roddi i'r tlawd, "Gwyn ei fyd a ystyrio wrth y tlawd, yr Arglwydd a'i gwared yn amser adfyd." "Y mae'r hwn sydd yn rhoddi i'r tlawd, yn rhoddi benthyg i'r Arglwydd." Rhoddi siampl dda i bawb; cyngori, ac annog i gariad a gweithredoedd da, *Heb.* 3. 13. Ymdrechlu bod yn ffyddlon i annog dynion i ymofyn am gadwedigaeth. Cydymddwyn a bod yn ymarhous wrth bawb, *Eph.* 4. 1. Ymwelw â'r cleision, a'r gwragedd gwedd-won yn eu hadfyd. Gweini i'n gelynyon: "Os dy elyn

a newyna, portha ef, os sycheda, dyro iddo ddiod.²
 Ond ni chaf ymhelaethu ddim yn ychwaneg ar hyn.
 Af ymlaen at y peth nesaf.

YR AIL BREGETH,

ODDIWRTH 2 TIMOTHEUS, 3. 5.

*A chanddynt rith duwioldeb, eithr wedi gwadu ei grym
 hi; a'r rhai hyn gochel di.*

AR ol sylwi ar y peth cyntaf sef grym duwioldeb.
 Yr ydym yn bresenol i ystyried, yn

II. Y dichon dynion fyned ymhell mewn pethau cre-
 fyddol, ac yn ymddifad o rym duwioldeb.

III. Yr anghenrheidrwydd i ochelyd y cyfryw.

IV. Rhai casgliadau oddiwrth y cwbl.

1. Fe ddichon dynion fod â llawer o oleuni ganddynt, am Dduw; ei hanfod, ei natur, ei briodoliaethau; am ei waith mewn natur, rhagluniaeth a gras; am ei ewyllys tu ag at ei greaduriaid rhesymol, fel y mae efe wedi datguddio hyny yn ei air. Fe ddichon iddynt wybod llawer am Grist; ei berson; yr anghenrheidrwydd o'i fod yn feddiannol ar ddwy natur; sef dwysôl a dynol, fel y gallai osod ei law ar y ddwy blaid; ei ddiodefiadau, ai swyddau cyfryngol. Fe brofir hyn yn Balaam, ac amryw eraill. Num. 24. 17. Fe ddichon iddynt wybod am yr anghenrheidrwydd o weithrediadau yr Yspryd Glân, i addasu pechadur i'r nefoedd. Drachefn, fe ddichon dynion wybod am gyflwr syrthiedig dynol ryw; Yr efengyl; ei hathrawiaethau a'i rheolau, ac yn ymddifad o rym duwioldeb.

*Nid yw bod gan ddynion wybodaeth, ddim yn ddi-
 ganol i brofi bod ganddynt wir dduwioldeb. Y mae
 gan y Diafol wybodaeth helaeth; er hyny y mae efe yn
 parhau i fod yn gythreulig. Er iddo golli ei sancteidd-*

rwydd, etto ni cholodd ei wybodaeth. Llauer sydd yn y dyddian hyn yn helaeth eu gwybodaeth, fel y gallant ymddadlau am byngeiau crefyddol, ac heb un arwydd o wir ras ynddynt. Y mae llawer â gwybodaeth yn eu pennau, heb sancteiddrwydd yn eu calonau, na'u hymarweddiad. Y maent yn debyg i'r llyffant, fel y dywaid rhai, fod perlyn ei ben, â'i fol yn llawn gwenwyn.

Y mae dwy fath o wybodaeth, un yn gyffredinol a'r llall yn gadwedigol. Y mae'r ddwy fath hyn yn debyg â oleuni'r lleun; yr hon nid yw yn rhoddi dim gwres; Oer yw'r nos er golued y byddo hi; felly gwybodaeth gyffredinol, nid oes ynddi wres o gariad at Dduw, na dim sancteiddrwydd yn cael ei weithredu ganddi yn yr enaid. Ond am oleuni'r haul, pa le bynnag y byddo, y mae rhyw radd o wres yn cydfywad âg ef; felly y mae cadwedigol wybodaeth yn gweithio caniad yn yr enaid at Dduw, ei waith a'i bobl; ac yn dwyn yr enaid i fyw'n sanctaidd. Y mae dynion yn ymchwyllo mewn gwybodaeth hanesiol; ond y mae gwybodaeth gadwedigol, yn eu darostwng. Er bod rhai dynion yn gwybod llawer am Dduw, nid oes dim ufudd-dod iddo. Er bod y pen yn oleu, y mae'r ewyllys yn gyndyn, a'r egwyddor yn eyniaeth yn erbyn Duw. Y mae'r fath beth a gwybod ewyllys yr Arglwydd, ac heb ei wnëyd, a gwybod llwybr dyledswydd, ac heb ei rodio. Fe ddywed yr Apostol, yn 1 Cor. 13. 2. ryw eiriau hynod: "A phe byddai genyf brophwydoliaeth, a gwybod o honof y dirgelion oll, a phob gwybodaeth; ac heb genyf gariad, nid wyf fi ddim." Hefyd yn *Rhuf.* 1. 21. "Oblegid a hwy yn adnabod Duw, nis gogoneddasant ef megis Duw. Yr oedd y bobl hyn â chanddynt wybodaeth am Dduw, ond nid oedd un dymuniad am ei ogoneddu. Drachefn, gwelwn yn *Rhuf.* 2. 18. "ac yn gwybod ei ewyllys ef, ac yn darbod pethau rhagorol gan fod wedi dy addysgu o'r ddeddf. Ac yr wyt yn oelio dy fod yn dwysog i'r deillion, yn Newyrch i'r rhai sydd mewn tywyllwch." Oddiwrth y pethau a ddywedwyd, gwelwn yn amlwg, y dychon dynion feddiannu helaeth-

rwydd o wybodaeth, ac yn ymddisad o rym duwioldeb.

2. Fe ddichon llawer fod yn helaeth eu doniau mewn pethau ysprydol, ac heb rym duwioldeb ganddynt. Y mae dawn helaeth mewn gweddi gan lawer; ac nis gellir hysgrifio mai duwiolion ydynt, oblegid eu bywyd anaddas. Nis gallwn farnu gras dynion wrth eu doniau, oblegid y mae rhai gwir dduwiolion yn fyrrach eu dawn na llawer rhagrithawr. Er fod yr Apostol yn annog y Corinthiaid i chwennyachu'r doniau goreu; etto medd efe, "Yr wyf yn dangos i chi ffordd mwy rhagorol," sef ymofyn am rym duwioldeb. Y mae doniau naturiol yn cael eu rhoddi iŵn yn ein lluniad yn y brŷ; ond y mae gras yn cael ei gyfrannu iŵn trwy air ac Yspryd Duw. Y mae doniau gweiniogaelhol yn cael eu rhoddi i lawer: Yr oedd Judas yn pregethu yr efengyl ac yn feddiannol ar ddoniau addas i'w swydd (heb hyn ni fasai Crist yn ei ddunfon i bregethu) ac yn ymddisad o rym duwioldeb, ac yn troi yn fraethawr. Y mae'r Apostol yn dangos yn eglur, y ddichon dynion bregethu i eraill a hwythau eu hunain yn wrthodethig; Megis myneg-fys (*singer-post*) yn dangos y ffordd i eraill, ond heb roddio modfedd o'r ffordd eu hunain. *1 Cor. 9: 27.* "Rhug i mi mewn un mudd, wedi pregethu i eraill, fod fy hun yn anghymeradwy." Drachefn, gwelwn yn *Math. 7. 22.* y modd y mae'r Arglwydd Iesu Crist yn profi y gwirionedd yma: "Llawer a ddwywedant wrthyf yn y dydd hwn, Arglwydd, Arglwydd, oni phrophwydasom, yu thy enw di?" Wrth brophwydo; yu ylle hwn, y deallir pregethu, a hyn yn enw Crist: "Ac oni fariasom allau gythreuliaid yn dy enw di?" Fe allir gair hwn gyanwys dan beth, sef barw allau gythreuliaid mewn ffordd wyrthiol; neu eu bod yn feddiol i argyhoeddi a dychwelyd pechaduriaid: "Ac oni wnaethom wyrthiau lawer yn dy enw di?" Y mae llawer wedi myned yn hwythog o ddoniau, i uffern dan. Ni ddylai neb fesur eu gras wrth eu doniau. Dywedodd Balaam yn rhyfedd am Crist mewn prophwydoliaeth, ond ni fu ef ddim gwell o'r wybodaeth a gafodd o Crist. *Nami.*

24. 17. Y mae ein doniau yn fuddiol i adeiladu eraill; ond gras a wna lês ini ein hunain. Ac felly ni a welwn y dichon dynion fod â doniau helaeth, ac heb rym duwioldeb.

3. Fe ddichon dynion fyned ymhell mewn proffes o grefydd ac mewn dyledswyddau crefyddol, ac heb rym duwioldeb.

Yn fuan ar ôl cwynp dyn yn Eden, ni a welwn, ymhith y duwiolion cyntaf, ddyn yn ymddisad o dduwioldeb. Y gwr oedd Cain. Er ei fod ef yn ymddangos yn grefyddol, a thau enw crefyddwr yn dwyn offrwm i'r Arglwydd, ac yn cyd-addoli âg Abel, er hyny yn byw ar rith duwioldeb. Amlygwyd hyny yn ei waith ef yn lladd ei frawd. A pha ham y lladdodd efe ef? Oblegid fod yr eiddo ef yn ddrwg a'r eiddo ei frawd yn dda. Yn yr eglwys fechan o eiddo Duw yn nheulu Abraham yr oedd Ismael watworus. Er ei fod wedi cael euwaedu arno, ac felly yn gyfrannog o freintiau'r eglwys, etto yn ymddisad o rym duwioldeb. Yn amser y prophwyd *Esay* yr oedd pobl ddiwyd mewn dyledswyddau crefyddol yn yr eglwys. Fe ddywed Duw am danynt. Beunydd y'n ceisiant, ac a epyllysiant wybod fy ffyrdd, fel cenedl a wnelai gyfiawnder, ac ni wrthodai farnedigaeli ei Duw: gofynant i mi farnedigaeli cyfiawnder; epyllysiant nesau at Dduw, *Esay* 58. 2. Ac yn yr adnoddau canlynol y mae'r Arglwydd yn dangos mai pobl ddrygionus oeddynt: *adn.* 3. 4. Drachefn, ni a welym yn *Seph.* 1. 12. fod yr Arglwydd yn myned i chwilio Jerusalem â llusernau, ac yn ymwled â'r bobl gydd yn ceulo ar eu sorod. Yr oedd y bobl yma yn Jerusalem, yn adeiladu eu gobaith ar sorod, ac felly yn ymddisad o rym duwioldeb. Yr oedd y 'Sgrifenyddion a'r Pharisaeid yn yr eglwys Iuddewig, yn broffeswyr hardd a manwl yngolwg dynion, ond heb dduwioldeb, Oblegid y mae chwiliwr y calonnau yn rhoddi eglurhad o'u cyfiwr; eu bod yn rhagrithwyr; ac mai tebyg dynt i feddau wedi eu gwynnu. *Math.* 23. 27.

Y mae'r Arglwydd Iesu yn profi y gwirionedd hwn trwy amrywiol gyfmariaethau.

Y mae'r eglwys yn cael ei galw'n faes, lle y mae hâd da a hâd drwg. Yr had da yw'r gwir dduwiolion, y rhai mae Daw yn eu hau yn ei faes: Yr had drwg yw rhagrithwyr, Y rhai y mae'r Diafol yn eu hau yn eglwys Dduw: *Math.* 13. 24, 30, 36, 41. Drachefn, Y mae teyrnas nefoedd yn cael ei chyffelybu i rwyd yn cael ei bwrw i'r môr, ac a gasglodd o bob rhyw beth, *Math.* 13. 47, 49. ac ni gawn yuddi rai drwg a da. Yr hyn sydd i ni ddeall wrth y gyffelybiaeth hon, yw, bod duwiolion a rhagrithwyr yn gymmysgedig yn eglwys Dduw, yn y byd hwn. Ac y mae gormod o le i greda fod llaweroedd o bobl yn yr eglwysydd, yn ein dyddiau ni, a chanddynt rith duwioldeb; Ac os yw hi felly ymhlith gwir eglwysydd Crist, oni allwn ni benderfynu, (fel y mae llawer yn pregetha a phroffesu athrawiaethau cyfeiliornus, y rhai nid ydynt yn ol duwioldeb) fod llawer yn boddloni ar rith duwioldeb: Drachefn gwelwn yn *Esay* 48. 1. "Gwrandewch hyn, tŷ Jacob, y rhai a elwir ar enw Israel, ac a ddaethant allan o ddyfroedd Juda: y rhai a dyngant i enw yr Arglwydd, ac a goffant am Dduw Israel, nid mewn gwirionedd, nac mewn cyfiawnder." Dynia bobl oedd yn profesu crefydd, oblegid hyny a feddylir wrth eu gwaith yn tyngu i enw yr Arglwydd; ond nid mewn gwirionedd, nac mewn cyfiawnder. Dyna ei rhagrith. Er eu bod yn broffeswyr, nid oeddent ond rhagrithwyr. Y mae llawer yn ymfrostio yn eu profies, pan y mae eu calon tan awdurdod a llywodraeth pechod. Fel y bobl gynt yn dywedyd Teml yr Arglwydd, teml yr Arglwydd ydym ni, a chwiliwr y galon yn eu galw yn rhagrithwyr. Y mae'r gwirionedd hwn i'w weled yn *Math.* 7. 21. "Nid pob un sydd yn dywedyd wrthyf, Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd." Y maent yn ei alw yn Arglwydd, ond nid oes ufudd-dod iddo fel Arglwydd: Drachefn, ni a welwn yn *Esay* 58. 2. y dichon dynion fod yn hynod fanwl mewn crefydd, ac yn rhagrithwyr. Ac yn sier os yw y rhai hyn yn golledig, y mae achos genym ni i ofyn, "A phwy all fod yn gadwedig?" Ond sylwn arnynt. Dywedir am danynt gan yr Ar-

glwydd, "Beunydd y'm ceisiant." Yr oeddynt yn ceisio Duw; yn ymofya â'r prophwyd pa genadwri oedd ganddo oddiwrth yr Arglwydd: Yr oeddynt yn ymddangos fel pe buasai ceisio Duw yn bleser ganddynt. Beunydd y'm ceisiant. Yr oeddynt yn ddiwyd rhyfedd ynghyd â'r gwaith o geisio Duw: nid ar rai amserau, fel y dywedir am y rhagrithiwr, ond yn feunyddiol; megis pe buasent yn gwneuthur cydwybod o geisio'r Arglwydd. "Ac ewyllysiant wybod fy ffyrdd." Yr oeddynt yn ymddangos fel dynion oedd â'u calon yn y gwaith o wybod ewyllys a ffyrdd yr Arglwydd. "Fel cenedl a wnelai gyfiawnder." Yn ymddangos fel pe buasent am gwneuthur cyfiawnder, neu ymddwyn yn gyfiawn tu ag at Dduw a dynion. "Ac na wethodai farn-edigaeth ei Duw." Yr oeddynt yn glywa yn allanol wrth ddyledswyddau crefyddol. Nid oeddynt fel llawer yn ein hamser ni, yn esgeuluso'r moduron: "Gofynant imi farnedigaeithau cyfiawnder." Nid yn gwneuthur yn ol eu dychmygion eu hunain, ond yn ol ewyllys statguddledig yr Arglwydd: "Ewyllysiant nesau at Dduw." Fe ddywedir am y rhagrithiwr, "A ymhlyfya efe yn yr Hollalluog?" Job 27. 10. Na wna. Ond yr oedd y bobl hyn yn ewyllysio nesau at Dduw. Yn chwanegeol at yr hyn a enwyd, yr oeddent yn ymprydio yn anil. Y mae'n debyg eu bod yn hynod grefyddol mewn ymddangosiadau, fel y Phariseaid; ond gwedi'r ewbl yn rhagrithwyr, tebyg i feddau wedi eu gwymu. Er palled yr aethant, nid aethant yn ddiligou: Yr oedd y gwreiddyn vu ddrwg, er mor hardd oedd yr ymddangosiad. Un ysgrtythyr yn ychwaneg sydd yn ddigou i brofi y gwiriouedd pwysig hwn. Math. 25. 1. Lle y dangosir mor bell y dychon dynion fyned mewn profies o grefydd, ac yn y diwedd yn golledig.

Y mae'r pump morwyn ffol yn y bennod hon yn cael yr un enw â'r morwynion call; a'r un gair sydd yma am y morwynion, ag sydd yn cael ei gyfieithu *gwyryson* yn Datg. 14. 4. Y mae'r gair gwyrif yn cynnwys eu bod yn ddiargyhoedl yn eu hymarweddiad; "Wedi diange oddiwrth yr halogedigaeith sydd yn y byd trwy dra-

ehwant." Yr oedd ganddynt olew, nid gwir olew gras, ond rhyw beth tebyg i ras; a phan y daeth amser y profi, hwy a welant eu bod wedi cam-gymmeryd, rhiith yn lle gryni dirviolddeb. Yr oedd ganddynt ryw fath o argyhoeddiadau, o olëuni a phrosiadau, fel y caf sylwi ar hyn mewn lle arall. Hwy a aethiant gyda'r morwynion call. Nid oeddant yn broffeswyr segurillyd, ond yn ddyfai mewn dyledswyddau, ac yn cynnyddu mewn gwybodaeth. Hwy a adawsant lawer ar eu hyl; ac yr oeddant yn gyfeillion i'r gwir forwynion. Aethant i gyfarfod â'r Pfioldfab. Yr oeddant yn arddel Crist, ac yn ymofyn ar ei ol. Pan ddaeth y llef, "Wele'r Priodfab yn dyfod; ewch allan i gyfarfod âg ef;" Hwy a godasant gyda'r morwynion eraill, ac a drwsiasant eu lampau; ond erbyn chwilio, nid oedd ganddynt dim olew yn eu llestri. Yr oeddant yn profesu crefydd hyd angau, ac yn ymdangos i lawer fel gwir ddawion: Hwy a aethant i geisio olew; ond erbyn hyn yr oedd y drws wedi ei gau. Gwelwn mor bell yr aethant. Parhasant mewn profes hyd angau; aethant hyd ddrws y nefoedd. Yr oeddant yn disgwyl cael derbyniad i mewn, ond y drws a gaewyd yn eu herbyn. Y mae achos i ddynion grynu ac arswydo; os caewyd y rhai hyn allan, a barhodd hyd angau, beth a ddaw o'r bobl sydd wedi gadael crefydd a thy Daw? Os ydoedd y rhai hyn yn fyr o'r gwirionedd, a hwy yn hynod ddiwyd wrth grefydd, beth a ddaw o lawer yn ein hamser ni, sydd yn ddiog mewn dyledswyddau, ac yn eu hesgeuluso hwynt? Os oedd y rhai hyn, sydd yn cael eu galw yn wryson (obhryd fell y gellir cyfieithu y gair) yn cael eu cau allan, pa fodd yr ymdrawa y rhai sydd yn gwaradwyddo yr efengyl trwy eu bywyd anadlas? Os yw broffeswyr efengyl Crist yn golledig, pa beth a ddaw o'r rhai na seddylasant erioed i gymmeryd arnynt broffes o grefydd? Felly gwelwn y dichon dynion fyned ymhiell mewn profes o grefydd, ac heb rym dirviolddeb.

Amrywiol o bethau a all dueddu dynion o'r fath a enwyd, i gymmeryd arnynt broffes o grefydd. Weithian etogrwydd cydwybod. Pryd y byddo cyflwr trua-

enus y dyn digrefydd, a'r canlyniadau enbyd sydd iddo ddisgwyl, yn cael eu gosod allan yn y weinidogaeth, nes y mae yn canfod pa fath un ydyw yn y drych, yna y mae cydwybod yn ei gnoi a'i ffino; ac yn y cyfryw deimlad y mae llawer yn rhedeg tan adeu proffes, i blith plant yr Arglwydd, ac yn gorphwys ar y broffes, heb geisio dim yn ychwaneg; ac yn dysgu yn eu plith ddywedyd am grefydd, a phrosiadau duwiolion; ac y mae'r Diafol wrth ei fodd, yn eu dwyn i gysgu ar glustog o broffes. Pryd y mae cyflwr yr annuwiol a'r dyn digrefydd yn cael ei ddisgrifio, y mae'r hunan-dwyllwr yn edrych ar hyn yn perthyn i'r dyn digrefydd; oblegid y mae yn ei olygu ei hun yn un o'r ddinas sanctaidd; ac am hyn yn fwy caued oddiwrth argyhoeddiadau'r gair. Y mae efe yn cysgu yn ei bechod. Wrth y cyfryw y mae'r Arglwydd yn dywedyd, "Gwae y rhai esmwyth arnynt yn Sion."

Bryd arall y mae dynion oddiar gau diben yn cymmeryd arnynt broffes o grefydd.

Y mae llawer yn gwisgo proffes am danynt, i gael dwyn ymlaen eu dibenion drwg. Fel y dywedodd un awdwr enwog, eu bod âg afon Duw yn troi melin y Diafol. Beth yw y rhai sydd yn cymmeryd arnynt waith y weinidogaeth, er mwyn elw bydol a pharch, heb un arwydd ynddynt eu bod yn caru Crist na i waith, ond bleiddiaid ynghrwyng defaid? A llawer sydd, ar ol iddynt gael eu dibenion i ben, yn taslu'r wisg heibio. Y mae eu Meistr weithiau yn ymrithio yn rhith Angel y goleuni, pan y gwelo mai felly y bydd tebyccaf i ddwyu ei amcan uffernol i ben. Y mae gormod o siamplau e hyn, sef y Phariseaid, gau athrawon, a llawer o broffeswyr yn ein hamser ni. Y mae tri o bethau sydd yn gwneuthur cyflawniadau crefyddol y rhagrithiwr yn ffaith ger bron Duw, 1. Y mae efe yn gwneud y cwbl oddiar egwyddor ddrwg, pa mor ddymunol bynnag yr ymddangoso i eraill. Y mae ein Harglwydd yn profi hyn, yn *Math. 23. 28*. "Felly yr ydych yn ymddangos i ddynion eich bod yn gyfiawn, ond oddi mewn yr ydych yn llawn rhagrith ac anwiredd." 2. Y mae efe yn han-

nerog yn ngair a gwaith Duw, Y mae eise yn dihidlo gwybedyn, ac yn llyngcu camel, yn degymmu y mintys a'r anis a'r cwmin, ac yn gadael heibio bethau trymaf y gyfraith, sef burn, trugaredd, a ffydd. *Math. 23. 23.*
 3. Mae'n gwneyd cam ddefnydd o'i gyflawniadau. Yn lle eu gadael yn eu lle priodol y mae eise yn eu codi i'r lan, i gael ei gymmeradwyo trwyddynt ger bron Duw, ac felly yn gwneuthur cyflawnder o honynt, yn lle ym-ostwng i gyflawnder Crist. Ond mi af ymlaen at beth arall.

4. Fe ddichon dynion brofi'r gair yn gweithredu arnynt; ac heb rym duwioldeb.

Y mae llawer yn cael eu hargyhoeddi gan y gair trwy fod cydwybod naturiol yn cael ei goleuo; ac felly y dyn yn cael ei oleuo o ran ei farn, am Dduw, am bechod, ac am dano ei hun, fel ag y mae, gyda Ffedics, yn dychrynu, ac yn cael ei hun yn euog ger bron Duw; a, thra dan y gair, mae'n addunedu byw yn well; ond ar ol myned o'r drych, y mae eise yn anghofio pa fath ydoedd. Fe argyhoeddwyd y Phariseid yn y deiml gan Grist, pryd y dywedodd, "Yr hwn sydd heb bechod talled garreg atti hi; a hwy, wedi eu hargyhoeddi gan eu cydwybod, a aethant allan." Ond nid esgorodd yr argyhoeddiad ar droedigaeth. Felly y mae llawer tan ryw fath o argyhoeddiadau dyfnion, heb wir ddychweliad. Fel y gwelwn yn *Heb. 6. 4, 5.* "Canys amhosibl yw i'r rhai a oleuwyd unwaith, ac a brofasant y rhodd nefol, a wnaethpwyd yn gyfrannogion o'r Yspryd Glân, ac a brofasant ddaionus air Duw, a neithoedd y byd a ddaw," &c.

Y mae llawer yn boddioni ar gael eu dal yn euog tan y gair, ac yn meddwl bod hyuy yn ddarn mawr o greffydd, heb ymofyn am i'r un gair eu rhyddhau.

Drachefu, Y mae'r gair yn gweithio ar serchiadau naturiol dynion, hyd nes bod rhyw arwyddion dymunol i'w canfod arnynt. Wrth glywed pregethu Crist yn ei berson, ei ddioddefiadau, rhinwedd ei aberth, ei oruchafiaeth ar Ddiabol, ei eiriolaeth yn y nef, &c. y mae eu serchiadau yn dryllo, a'r dagrau yn colli, a'u tymherau

yn gwresogi, fel ag y gwelwyd llawer o'r cyfryw yn uchel-ganŷ a gorfoleddu mewn ddferron, a chyn pen hit amser yn troi yn withgilwtr, yn wawdwyr ac yn ddyf-tyrwyr yr achos goreu. Ddina'r graigle y dyweddir am dano gan yr Arglwydd Iesu, ei fod yn dethyn y gair yn llawen; ond nid oes ganddo wreiddyn ynddo ei hun; ac ani hynny y mae't urgoelion dymunol yn difflant, *Math. 13. 5, 6.* Llawer a geir, tra tan y weinidogaeth, a golwg ddymunol arnynt, ac yn edrychi fel pe byddent tan wlith y nefoedd; ond os sylwir arnynt yn eu cartref-ldoedd, ac y'nghyd f'u masnach bydol, y maent yn ym-ddwyn fel paganiaid.

Y mae dynion yn gwahaniaethu yn eu tymherau nat-uriol oddiwrth eu gilydd; rhai yn fwy drylliedig nag eraill, fel ag y mae llais ac araeth y pregethw'r yn toddt eu tymherau naturiol; a phe byddent yn gwled rhyw chwareyddiaeth ofer ag f'effeithia'r ar dymher, gwelid hwynt yno yn colli dagrau; oblegid y mae awdurdod mawr gan lais neu fwsic ar natur. Nid oes t'n odfa wrth fodd llawer heb fod tymherau yn cael eu toddt; ac wrth y graddau y byddo eu tymherau yn cael eu toddi, y mae llawer yn barnu y pregethau y maent yn eu clywed. Crefydd anwastad sy gan y cyfryw; ni thal hi ddim i wynebu tywydd garw. Ac se fydd mor hawdd gan y cyfryw bob dror cesu ar dy Dduw, ag oedd gan dilyn ddyfod iddo. Ond cofia hyn; nid ydwyf fi yn ddyfyru tymherau weili eu sancteiddo mewn crefydd; fy nymuniad yw bod chwateg o honynt gan wir crefydd-wyr. Duw a'u chwane'go. Enaid gwerthfawr, gad idd-ynt fod yn eu lle priodol, ac na osod dy angor ynddynt. Na fedw' nad oes genyt fi wir crefydd, pan yw dy dymherau yn oer, na fanna dy grefydd wrth dy dym-herau. Y mae yn rhaid iti' gael clywed pregethau a'ih gynnyddant mewn' gwybodaeth egwyddorol o athrawiaethau gras; heb hyny ni fydd ond baban mewn crefydd. Ac y mae yn beth tra angenrheidiol i ti glywed gwirioneddau a ddelgys i bechadur ei ddy-ldswydd, pa fodd Irodio a boddioni Duw, ac helyd y y gwirioneddau a wasgo bechadur i chwilio ei hun ac i

bwyso ei grefydd ynghlorian y gair. Fe ddywedir am Herod, ei fod yn gwrandio Ioan yn pregethu gyd â rhyw arioldeb, ac yn gwneuthur llawer o bethau da: ond ni a welwn i'r Herod yma roddi gorchymyn i dorri pen Ioan wedi hynny. Felly ni a welwn y dichen dynion brofi llawer o bethau yn gweithredu ar eu tymheran, ac yn ymddiffad o rym duwioldeb.

5. Fe ddichon llawer wneuthur cyfaddefiad o'u pechodau wrth Dduw a dynion, ac heb rym duwioldeb.

Fe gyfaddefodd Judas ei bechod gyda galar; "Pechau gan frodyddu gwneud gwirion." Saed, hyniahin Israel, a gyfaddefodd ei bechod i Ddafydd. Y mae llawer yn cyfaddef pechod o arferiad, ac nid am sefod yn faich iddynt, nac yn gas ganddyna. Mae llawer a gyfaddefant eu pechodau y pryd y byddo barnedig-aethau Duw arnynt: Megis Pharao; ond pan y try Daw y fam heibio, ymgaledant drachefn. Llawer a gyfaddefant rai pechodau, ac a guddiant y lleill; hwy a gyfaddefant y pechodau amlwg i bawb, ond ni soniant am bechodau y fynwes. Y mae llawer yn cyfaddef eu pechodau heb un bwrriad i'w gadael, ond barnu'r bwyd a'i swytta. Fe debygid wrth gyfaddefiad llawer o rym eu llygredigaethau, eu bod yn chwannych cael eu marw'nau, ac er hynny yn rhoddi bwyd iddynt, ac yn rhagddiarbod tros y enwad. Y mae yn eglur mai hyn yw arferiad pechadurus llawer yn ein dyddiau ni. Dywedant nad oes ganddynt nerth i orchfygu eu llygredigaethau a'u chwantau annuwiol; a chymmerant hynny yn esgus am eu bai. Onid yw Duw wedi eu hannog yn wyneb eu gwendid, i ofn ganddo ef nerth a grym? "Os oes at neb eisiau doethineb, gofyned gan Dduw, yr hwn sydd yn rhoddi yn haelionus i bawb, ac heb ddannod; a hi roddir iddo ef." *Iago* 1. 5. Drachefn, "Ceisiwch, a chwi a gewch; Canys pob un sydd yn gofyn, sydd yn derbyn; a'r neb sydd yn ceisio, sydd yn cael." *Math.* 7. 7, 8. Onid oes trysorau a' ras yn y Cyfrwngwr, i gael ei berffeithio yn ein gwendid ni? ac felly o'i gyflawnder ef, y gallwn ni dderbyn, a gras un ras, *Iogn* 1. 16.

6. Fe ddichon llawer alaru o herwydd pechod, ac heb rym duwioldeb.

Fe wylodd Esau annuwiol oblegid colli'r enedigaeth fraint: ei bechod oedd yr achos iddo ei cholli; am hyny y dywedir, "Na chafodd efe le i edifeirwch, er iddo trwy dagrau ei thaer-geisio hi." *Gen. 27. 34. Heb. 12. 17.* Fe wylodd Orpa wrth ymadael â Naomi, er bod chwant yn ei chalon i fyned yn ol at ei gau dduwiau, a gadael Duw Israel, ei waith, a'i bobl. Fe wylodd Judas o herwydd ei bechod; ac aeth tan wylo i offeru dan, lle nad oes ond wylofain a rhingcian dannedd. Y mae'r rhagrithiwr yn wylo o herwydd ei bechod, nid am ei fod yn ei gasau; nac am ei fod yn groes i natur Duw; ond am y drwg sydd yn canlyn pechod, sef y gosp o'i herwydd. Y mae efe yn cael pleser wrth bechu; ond ar ol hyny y mae cydwibod yn ei gnoi ef, ac yn dywedyd, bod diwrnod y cyfrif yn dyfod. Y mae llawer sydd yn gwybod fod pechod yn ddrwg, ac yn myned ymlaen mewn pechod yn erbyn eu gwybodaeth a'u cydwibod.

7. Fe ddichon dynion ymadael â llawer o bechodau, a diwigio yn fawr yn eu hymarweddiad, ac heb dduwioldeb. Y mae'r gwirionedd hwn yn cael ei brofi yn *2 Pedr 2. 20, 21, 22.* "Canys os wedi iddynt ddiange oddiwrth halogedigaeth y byd," (sef oddiwrth arferion llygredig ac ymarweddiad annuwiol y byd, a hyny) "trwy adnabyddiaeth yr Arglwydd a'r Achubwr Iesu Grist, y rhwystrir hwy drachefu â'r pethau hyn, a'u gorchfygu." Ond galarus yw meddwl eu bost yn dychwelyd fel y ci at ei chwydiad drachefu. Yn fwy hy i bechu yn erbyn yr Arglwydd, â'u cydwibodau fel wedi eu serio â haiarn poeth; ac felly eu diwedd yn waeth na'u dechreuad.

Y mae'r fath beth ag ymadael â rhai pechodau, ac heb ymadael â phob pechod, fel ag y mae meddwod a chybydd-dod yn yr un dyu, yn gwrthwynebu eu gilydd; y chwant a fydd drechaf fydd y dyn yu ei arferyd; ond er hyny y mae ei Ddalila ganddo. Fe ddywed yr Arglwydd Iesu, fod yn rhaid tynnu'r llygad de, a thorri'r fraich dde; hyny yw, y mae'n rhaid ymadael â phob

pechod: heb hyny nid oes myned i mewn i deyrnas nef-
oedd. Y mae gras yn taro yn erbyn pob pechod; felly
y mae pob aelod yn yr hen ddyrn yn cael ei farwahu. Y
mae llawer yn ymadael â phechodau allanol, ac etto, ar
yr un pryd, yn cofseidio drygioni mynwesol.

Y mae llawer yn gadael pechod dros amser, ac yn
dychwelyd atto drachefn. Y mae'n llai o ddrwg, fod
dyn yn pechu, nâ'i fod yn caru pechod. Fe all chwantau
gael eu cadwyno tros ryw amser, ond drachefn yn cael
eu gollwng yn rhydd. Fe allir sylwi, mewn cysylltiad
â hyn, ar yr hyn y mae Crist yn ei ddywedyd; Pan el
yr Yspryd aflan allan o ddyrn;" ac ar ol iddo fethu cael
gorphwysfa, y mae fe yn dychwelyd yn ol i'w hen le,
ac y mae fe yn ei gael wedi ei drwsio a'i lanhau; Y
dyn wedi ymfoesoli, ac wedi gadael llawer o'i chwantau
aflan; ac hwyrach ei fod wedi myned at grefydd; ond
y mae'r Diafol yn cymmeryd atto saith yspryd aflan,
gwaeth nag ef ei hun, ac y mae diwedd y dyn hwnaw
yn waeth nâ'i ddechreuad.

8. Fe ddichon dynion fwriadu peidio pechu, a
gwneuthur addunedau mawrion yn erbyn pechod, ac
heb ddim ond rhith.

Fe addunedodd Saul y gadawai efe ei bechod, aef
erlid ar ol Dafydd: 1 Sam. 26. 21. A Pharao a
addunedodd y gollyngai efe bobl Israel ymaith, a hyny
lawer gwaith. "Ac mi a ollyngaf ymaith y bobl,"
Ecs. 8. 8. Ac er addunedu, fe fu Saul a Pharao farw
yn annuwol.

Fe addawodd dyn y canlyni ei efe yr Arglwydd Iesu:
"Ond gad imi yn gyntaf ganu yn iach i'r rhai sydd yn
fy nhŷ." Luc 9. 61. Ond nid oes genym ni wybodaeth
ddarfod iddo byth gyflawni ei adduned.

Llawer o bethau sydd fel achos i ddyrnion fwriadu ac
addunedu bod yn well. Y mae gofidiau a thralodau
yn gyrru dynion i addunedu gwellhau, os cant eu har-
hed. Pryd y byddo Duw yn ymwaled â dynion trwy
glefydau, y maent yn bwriadu ac yn addunedu byw i'r
Arglwydd. Llawer er, cael eu hadferyd, sydd yn ang-
hofo yr addunedau, ac yn fwy annuwol nag o'r blaen.

Yr oedd y genedl Iuddewig, y pryd y disgynnodd yr Arglwydd ar fynydd Sinai, yn addaw gwrande ar yr Arglwydd, a gwneuthur yn ol ei orchymyn. Felly y gwr a addawodd fyned i'r wiullan, ac nid aeth. *Math. 21. 30.*

9. Fe ddichon dynion fod yn zelog mewn pethau crefyddol, ac heb rym dauwldeb.

Y mae siamplau amhwg i'w gwelod o hyn, yn Jebra ac amrywiol eraill. *2 Bren. 10. 16.* "Tyred gyda mi, a gwel fy zel tu ag at yr Arglwydd." Llaver o bethau da a gyflawnwyd gan Jehu; ie, fe gyflawnodd y prophwydoliaethau perthynol i dŷ Ahab; ac er ei fod yn gwneuthur ewyllys yr Arglwydd, etto zel amurwiol oedd ganddo.

Y mae amrywiol fath o zel, a all dynion atnuwiol ond dngos: *Zel ddadl, heb wybodaeth, ac etto yn zel tros Duw:* "Y mae ganddynt zel Duw, eithr nid ar ol gwybodaeth," *Rhaf. 10. 2.* Dyna'r fath zel ydoedd gan Paul, tra yr oedd yn pharisead, *Obligid fe ddywed, ei fod "yn ol zel yn erlid yr eglwys," Phil. 3. 6.* Y mae'r Arglwydd Iesu yn rhiag-fynegi i'w ddisgyblion, y byddai iddynt gael eu herlid gan yr Iuddewon, o herwydd fod y zel hon yn eu llywodraethu: *Hwy a'ch bwriant chwiallan o'r Synagogau; y mae'r awr yn dyfod, ac y tybia paw bynag a'ch lladdo, er fod yn gwneuthur gwasanaeth i Duw."* Y mae math arall o zel, *ref ur humanol,* y pryd y mae hunan-ddiben yngolwg dynion. Dyna'r fath zel oedd gan Jehu; Nid oedd yn gwneuthur yr hyn a wnaeth, o ufudd-dod i orchymyn yr Arglwydd, ond er mwyn cael meddiantu y deyrnas, ac eisodd ar yr orseddfaing. *Am hyny y mae Duw yn bwgwith i'g Jehu. Er ei fod wedi cyflawni yr hyn oedd Duw wedi ei orchymyn iddo; etto, o herwydd ei gau ddiben yn y gwaith, y mae'r Arglwydd yn dywedyd, "Gwynn ar fydder y tialaf waed Jerroel ar dŷ Jehu," *1 Kof. 7. 4.**

Y mae llaver yn zelog i'w gwelod mewn rhai pethau, ac yn verdyg mewn pethau mwy parhysawrus a'ghwrioldeb. Yr oedd y Phariseaid yn ofalus i ddogymutu y adeuys, yr aml, a'r cwmio; ond yn wdddynt yn coga-

Iuso, pethau trymaf y gyfraith, sef barn, trugaredd, a ffydd. Y mae llawer yn zelog o blaid arferion a thradodiadau y tadau, a thrwy hyny yn gwneuthur gorchymyn Duw yn ddirym. Yr oedd y Phariseaid yn fanylach mewn allanol gyflawniadau, nâ thufewnol grefydd. Yr oeddynt yu fawr eu zel am olchi eu dwylaw cyn bwytta, ac yn foddlon bod yr enaid tan awdurdod aflendid. Y mae Crist yn eu galw yn rhagrithwyr, yn dyhidlo gwybedyn ac yn llyngcu camel." Y mae llawer yn gymnaint eu zel am eu henw neu sect eu hunain, fel nâ ddeuant i wrando gweinidogion o enwau eraill, er eu bod yn iach yn eu barn; ac y mae yn well ganddynt aros gartref nâ dyfod i wrando y cyfryw.

Y mae llawer yn zelog yn erbyn *pechodau eraill, ac yn cofleidio yr unrhyw bechodau ydddynt eu hunain.* Yr oedd Jehu yn zelog yn erbyn Baal a'i offeiriaid, oblegid bod hyny yn perthyn i Ahab; ond nid felly yn erbyn lloi Bethel, am fod y rhai hyn yn perthyn iddo ei hun. Felly ni a welwn yn eglur, y dichon fod gan lawer zel fawr, ac heb rym duwioldeb.

10. Fe ddichon dynion weddïo yn ddoniol, yn aml, ac yn daer, heb rym duwioldeb.

Y mae'r annuwiol yn gweddïo. Am hyny y dywedir, bod gweddi yr annuwiol yn ffaidd gau yr Arglwydd. "Y bobl hyn a nesant ataf fi â'u geneuau, ond mae eu calon yn myned ar ol eu cyhydd-dod."

Llawer o bethau a all rhueddu dynion drwg i weddïo; mae euogrwydd, dychryntiaau, a gwasgfaon, yn gyrru llawer i weddïo. Ni a welwn mai dyna fel yr oedd llawer ymlith yr Iuddewon. Pan laddai efe hwynt, hwy a'i ceisient ef; er hyny rhagmihio yr oeddent iddo â'u genau, a dywedyd celwydd wrtho â'n tafod." *Salm 78. 34.* Gelwn hefyd yn *Esay 26. 16.* "Mewn adfyd, Arglwydd, yr ymwelsant â thi; tywalkasant weddi pan oedd dy gospedigaeth arnynt." Pan yr ydoedd bob peth yu dawel, nid oeddynt yn son am weddïo, ond pan yr aeth yn gyfyngdra arnynt, rhagrithiasant o flaen yr Arglwydd mewn gweddi. Felly mae Job yn dywedyd am y Rhagrithiwr; "A eilw efe ar Dduw bob amser?"

Nid yw yn meddwl am weddio, hyd nes y byddo yn cael ei wasgu gan ryw gyfyngdra. Pan oedd llaw Duw yn drom ar Pharao, fe alwai am Moses i weddio trosto; ond pan y symmudid ymaith y pla, yr oedd yn ymgaledu drachefn.

Fe ddichon dynion annuwiol weddio, *a chael eu dynuniad gan yr Arglwydd mewn modd barnol.*

Yr oedd yr Iuddewon yn gofyu am gig, fe atebodd yr Arglwydd hwynt yn ol eu blys; ond fe ddanfionodd gului i w plith. *Salm 78. 30.* "Ni ommeddwyd hwynt o'r hyn a fsysasant; er hyny tra yr ydoedd eu bwyd yn eu safnau, digllonedd Duw a gynneuodd yn eu herbyn hwynt." Fe ddichon llawer rhagrithiwr fod yn fwy ffraeth a doniol mewn gweddi na'r duwiol: Ond y mae ei weddi ef i gyd yn y doniau, heb ddim sylwedd. Fe ddywed Crist am y Cenhedloedd, eu bod yn meddwl cael eu gwrandawr am eu *haml eiriau*. Y mae yn hawdd iawn gan y rhagrithiwr esgeuluso gweddi ddirgel, a theuluaid; oblegid mae ei grefydd ef i gyd yn y cyhoedd, heb ddim yn y dirgel rhyngtho â Duw; ac felly yn ymddifad o rym duwioldeb.

11. Fe ddichon dynion fod â rhyw fath o ffydd ganddynt, ac heb rym duwioldeb.

Dyweddir ddarvoud i Simon y Swynwr gredu. Mae'r gwrandawyr sydd yn cael eu cyffelybu i'r creigle, *yn credu dros amser*. Hefyd, "llawer a gredasant yn ei enw ef, *Ioan 2. 23*, ond nid ymddiriedodd yr Iesu iddynt;" oblegid yr oedd yn gwybod mai crediniaeth amserol a rhagrithiol oedd hi: "Yn credu dros amser, ac yn amser profedigaeth yn cilio." Mae llawer yn credu pethau yn gywir am Grist, ond erioed heb gredu ynddo: ac nid yw'r cwbl ond crediniaeth hanesiol. Fe fu llawer â chanddynt ffydd wyrthiol, yn bwrw allan gythreuliaid yn enw Crist, ac er hyny yn golledig; "Oni fwrasom ni allan gythreuliaid yn dy enw di?" *Math. 7. 22.*

12. Fe ddichon dynion brofi gweithrediadau yr Yspryd Glân, ac heb rym duwioldeb.

Y mae yn beth diamheuol fod llawer o'r rhai a fydd

yn golledig byth, yn profi yr hyn nad yw'r gair o hono ei hun ddim yn ddigonol i'w ddwyu oddiamgylch. Fe ddaeth Yspryd yr Arglwydd ar Saul, ac amrywjol eraill; ac etto yn annuwiol, 1 *Sam.* 11. 6. *Ecsod.* 31, 2, 5. *Num.* 11. 16. *Barn.* 9. 10. Fe ddywed yr Apostol, *Heb.* 6. 4. y dichon dynion dderbyn y rhodd nefol, a'u gwnëyd " yn gyfrannog- iour o'r Yspryd Glân." Yr un peth wyf fi yn ei ddeall wrth y rhodd hon, a'r Yspryd Glân. Dyma fel y mae y Dr. Owen yn deall y geiriau. Oblegid y mae'r Ys- pryd Glân yn aml iawn yn cael ei alw yn *rhodd*: Ac y maent trwy yr Yspryd hwn, " yn profi daionus air Duw, a nerthoedd y byd a ddaw;" weithiau yn profi llawer iawn o lawenydd a hyfrydwch tan y gair, ac am- ser arall yn profi arteithiau uffern o'u mewn. Nid oes un anhawsdra i'r Yspryd dueddu enaid i wrando ar lais cydwybod, er na byddo un aniau newydd yn cael ei rhoddi yn y fynwes: ie fe ddichon dynion brofi y pethau hyn i raddau helaeth, ac heb wir dduwioldeb.

13. Yn ddiweddas, Fe ddichon dynion ddioddef o achos crefydd, ac heb rym duwioldeb.

Y mae'r gwirionedd hwn yn cael ei brofi gan yr Apostol; pan y mae yn gofyn i'r Galatiaid, y rhai oedd- ynt wedi derbyn yr Yspryd, " A ddioddefasoch gym- maint yn ofer?" *Gal.* 3. 2, 4. Y mae'n ddiambheuol fod llawer wedi dioddef amharch ac erlid i radd helaeth, o achos crefydd, ac heb y gwirionedd. Gwelwn hyn yn 1 *Cor.* 13. 3. " Pe rhoddwn fy nghorph i'un llogi, ac heb gennyf gariad, nid wyf fi ddim."

Pan y byddo dynion yn dioddef o gariad at Grist, maent y ddioddef oddiar ddiben gonest. Ond y mae llawer wedi dioddef i gau ddibenion, fel y Papistiaid, i bwrcasu gwynfyd trwy hynt. Y mae sect ymhlith y Paganïaid, pan y byddo un yn marw o honynt, y mae eraill yn tatlu eu hunain i'r tan i losgi gyda'r corph marw, ac felly y maent yn cyfrif y rhai'n yn bobl dded- wydd.

Mae llawer mor gadarn dros eu barn, fel y dioddef- ant lawer o amharch cyn ei gwadu, er bod eu barn yn

gyfeiliornus. Mae yn lleđ debyg fod Saul o Tarsus cyn ei droedigaeth mor gryf dros ei farn a'i grefydd, fel y buasai yn foddlon i ddioddef marw, yn lle ei gwadu.

III. Yr angenrheidrwydd i ochelyd rhith grefyddwyr.

Y mae'r Apostol, wrth gynghori Timotheus i ochelyd y cyfryw, yn gwybod y canlyniadau gofidus a fyddai i hyn ei arwain ef, iddynt. *Gal. 2. 4.*

Sylwaf yn 1, *Ar y perygl o gyfeillachu â dynion sydd heb rym duxioldeb, mewn barn ac athrawiaeth.*

Y mae athrawiaeth gyfeiliornus yn cael ei disgrifio gan yr Yspryd Glân, *trwy amrywiol gydmariaethau.* Fe ddywed ei bod yn debyg i guncr yn ysu. *2 Tin. 2. 17.* Mae cancr yn beth anhiawdd i'w feddyginiaethu; felly mae cyfeiliornad. Y mae heryd yn cynnyddu, ac yn ymdaenu yn y corph; felly, pan y byddo dyn yn gyfeiliornus yn ei farn, y mae am gael emall i gydweled ag ef. Ac yn gyffredin y mae rhyw ddiwydrwydd neillduol yn y cyfryw. Mae cancr yn taro yn erbyn bywyd y corph; felly y mae cyfeiliornad, yn sicr o ladd pawb, am byth, a sydd yn byw ac yn marw tan ei awdurdod. Fe wybu yr Apostolion, en eu gofid, am y clwy marwol hwn yn ymlusgo i mewn i'r eglwysydd; *sef eglwys Corinth, Galatia, &c.* Eu gwaith yn barhaus oedd codi eu llef yn erbyn gau athrawiaethau, a gweini o wirioneddau Duw i'r bobl rhag y gwenwyn marwol. Yr oedd y gau athrawon yn dwyn rhyw ddadleuon i mewn i'r eglwysydd; a'r rhai hyn yn meddwi danion, ac felly yn eu dwyn i yspryd ymddadieu, ac i esgeuluso erefydd dufewnol a phrosiadol; fel y gwelwn fod yr Apostol yn sylwi ar hyn. " Ond y mae arnaf osu rhag mewn un modd yn y byd, magis y twyllodd y Sarnh Efa trwy ei chyfrwysdra, felly bod eich meddyliau clwi wedi eu llygru oddiwrth y synlwydd sydd yn Nghrist." *2 Cor. 11. 3.* Ac yn yr adnod nesaf y mae efo yn dywedyd yr achos i'w meddyliau gael eu llygru; oblegid eu bod yn gwrando ar y gau athrawon. Holl ymdrech y Diabol, trwy ei offerynnau, yw dwyn profesywyr i esgeuluso crefydd brofiadol, ac i'roddi eu meddyliau ar ymddadieuon. Y dynion lleiaf eu sylwedd mewn crefydd yw y

rhai sydd yn rhoddi eu hunain i ymddadlau; ni welir mo' honynt yn eu helpen, ond pan y clywont bethau dadleugar. Pa le bynnag y ceir dyn o'r yspryd hwn, dyn disylwedd yw, Ac y mae'r Apostol Paul yn profi hyn. "Dynion Hygredig eu nreddwl ydynt, ac' aughymmeradwy." 2 *Tim.* 3. 8.

Am hyny, "*halogedig ofer-saint gochel.*—Gochel ynsyd ac annysgedig gwestiyau, gan wybod eu bod yn magu ymrysonau." 2 *Tim.* 2. 16; 28. Drachefn, fe ddywedir am yr ymdadlauwyt, mai dynion beilchion ydynt. "Cyndyn ddadlau dynion Hygredig eu meddwl, heb fod y gwirionetd ganddynt." 1 *Tim.* 6. 5.

Y mae yn beth peryglus i wrando ar athrawiaethau cyfeiliornus. Am hyny y mae'r Yspryd Glan yn dywedyd; "Nac arweiniet chi i oddiamgylch ag athrawiaethau amryw a dieithr." *Heb.* 13. 9. Y maent yn aflonyddu llawer meddwl gwah, hyd nes y dyger hwynt i *glorian y cysegr.* Anaml y ceir clywed cyfeiliornad, heb ychydig o wir yn gymmysgedig ag ef. Y mae'r Diafol yn rhoddi lliw o wir dros y gwemwyn, fel abwyd (*bait*) i'r diben i ddywyllo dynion i lyngcu'r bach. Anghenrhaid yw, ein bod wedi ein sefydlu yn y gwirionedd, yn lle bod yn blantos, yn cymmeryd ein cylch-arwain a phob awel dysgeidiaith, trwy hoccoed dynion, trwy gyfrwysdra i gyntwyn, i ddywyllo, *Eph.* 4. 14. Fe ddywed ein Harglwydd bod cyfeiliornwyr mor gyfrwys, nes "y twyllent, os byddai bosibl, yr etholedigion." *Math.* 24. 24. Am hyny, nid rhysedd i'r Apostol ddywedtd, a'r rhai hyn gochel di.

Yn 2, *Sylwaf ar yr anghenrheidrwydd a' beilyd dynion sydd yn ymddadlau o rym dau ddoleb yr eglwys Datw.*

Er bod dynion yn iach yn eu barn, o ran yr athrawiaeth, er hyny, os heb rym dau ddoleb, y mae achos i fod yn ochelgar o honynt. Y mae dynion o'r fath yma wedi bod yn ofid, ac yn fawr niwed, i eglwys Dduw, ac i bersonau neillduol. Er eu bod yn a ddel Iesu, Crist fel Brenhin ei eglwys, etto deiliand y Diafol ydynt; ac yn fradwyr yn nyddin Mab Duw; yn disgwyl pob cyf-

leusdra i wneyd drwg i'r achos goreu. Dyma'r catedigion y mae Breuhin Sion yn cael ei glwyfo ganddynt.

Y mae yn aughenrheidiol bod yn oebelgar o honiut; *O herwydd, fe wna eu cyfeillach hwynt ddrwg i dduwiolion.* Mae eu hyspryd yn vsghafu, eu meddwl yn wag-eddol, a'u syniadau yn gnawdol ac yn ddacarol. Hwyl ymdrechant i ddwyn y cristion oddiwrth y symlrwydd sydd yn Nghrist, i'r uurhyw dymmer a hwy eu hunain. Nid oes dim gras ynddynt hwy; ond y mae llygredd yn y duwiol, yn barod i ymestyn yn y demtasiwn. Y mae hyn i'w weled yn Jehosaphat dduwiol, wrthgyfeillachu ag Ahab annuwiol. Fe anfoddlonodd yr Arglwydd wrtho o herwydd hyn. *1 Bren. 22. 2, 29, 32.* Solomon a faglywyd gan ei wragedd, i addoli gau dduwiau, a gadael y Duw byw; ac felly a dligiodd yr Arglwydd, ac a ddygodd faru Duw ar ei dy. *1 Bren. 11. 1, 11.* Samson, trwy gyfeillachu â Dalila, a gollodd ei gryfder; a Duw a gliodd oddiwrtho. Am hwy, fe ddywedodd yr Yspryd Glân wrth y Corinthiaid, "Na seuer chwi yn anghymmarus gyd â'r rhai digred; canys pa gyfeillach sydd rhwng cyfiawnder a chynhyfiawnder? a pha gynmundeib rhwng goleuni a thymyllwch? a phagysondeib sydd rhwng Crist a Belial? neu pa ran sydd i gredadyn gyd ag anghredadyn?" *2 Cor. 6. 14, 15.*

Peth arall, Y mae cyfeillach y rhagrithiwr yn niweidiol i'r duwiol, *fel y mae llawer o eiriau caledion yn cael eu llefaru i'w clywedigaeth, o achos y rhagrithiwr; pa rai nid yw yn perthyn iddynt hwy.* Yr oedd, bod Judas ymbolith y dysgyblion, yn achos i Grist ddywedyd wrthynt, "Un o honoch chwi a'm bradycha i." Yr oedd golff yn llenwi eu mynwes rhag ofn fod Iesu yn meddwl, bod y fath dwyll ynddynt, pan oedd efe ya golygu Judas yn unig.

Drachefu y mae'r rhagrithwyp yn achos i ddwyn y duwiol i'w anfoddlonr Arglwydd. Dyma fel yr oedd y genedl Iuddewig. Pan y daeth Israel o'r Aipht fe ddywedir fod llawer o bobl gymysg yn eu plith, sef yr Aiphtiaid; nis gellir durnad pa faint o ddrwg a waeth y rhai hyn i Israel; wrth eu dwyn i duchan yn erbyn yr Arglwydd, *Ecs. 12, 36.* Llawer o weithiau y maent

yr sôn, mai gwell fuasai iddynt ddychwelyd i'r Aipht, oblegid y cig, yr wynwyn, a'r garlleg. Yr oedd calon y bobl hyn yn yr Aipht, er eu bod wedi dyfod allan o honi. Fê lwyddodd Judas yn ormod yn y peth hwn gyda'r dysgyblion.

Drachefu y mae'r Arglwydd yn gorchymyn i'w bobl ddyfod allan o'u plith. 2 Cor. 6: 17. Mae yn sicr fod achos i dduwiolion fod ynblith y cyfryw lawer gwaith; oblegid masnach bydol ac amgylchiadau eraill; ond anghenrheidiol yw bod yn ochelgar, i gadw at reol y gair, a pheidio myned tros honno er neb.

Mae yn sicr bod eglwys Ddaew yn gysmysgedig o dduwiolion a rhagrithwyr. Y mae'r gelyn ddyw yn hau efrau ynblith y gwenith; ac nid oes gamiattâd i'w bwrw ymaith, hyd oni ymddangoso'r ffrwyth; rhag ofn diwr-eiddio'r gwenith. Ond edryched y duwiol, yn neillduol yr ieuengctyd mewn crefydd, am fod yn ochelgar pa fath bobl y maent yn eu cymneryd yn gyfeillion. mynwesol; edrychent am ymgyfeillaethu â'r bobl sydd âg arwyddion o fod yr efengyl yn eu llywodraethu, mewn tymmer ac ymarweddiad. Y mae yn beth anghenrheidiol i farnu yn y modd mwyaf tision a charedig am bawb; ond o'r tu arall y mae yn suddiol i wilio a gweddfio rhag cyfeillachu gormod â'r rhai sydd yn foddion i'n harwain i brofedigaeth.

IV. Rhai cynghorion i'r bobl sydd yn feddiannol ar rym duwioldeb, ac i'n rhai sydd yn gorphwys ar ei rhith.

Rhai cyfarwyddiadau i'r gwir gristion, i wybod pa un a ydyw yn feddiannol ar rym duwioldeb, neu nad ydyw.

Nid oes neb mor barod i ofni ei gyflwr, a'r duwiol, pan y mae'r rhagrithiwr yn ei ymyl yn dawel ac heb ddim yn ei flanc. Y mae'r duwiol yn derbyn Crist, fol y mae yn cael ei gynnyg yn yr efengyl i bechadur, gyda galar a llawenydd; galar oblegid ei bechod, a llawenydd am fod Gwaredwr mor addas a digonol i'w fath ef. Y mae'r duwiol yn feddiannol ar egwyddor sanctaidd; y mae efe yn bur o galon. Math. 5: 8. Y mae ei bechod yn faich iddo, a'i hiraeth parhaus yw, am

gael gwared o gorph y farwolaeth: a'i wisgo â mwy o ddellw Duw. Y mae efe yn gadael pechod o'r tu cefn, ac y mae yn ymestyn at y nod: Nid yw yn ymfoddloni ar grefydd allanol, ond y mae yn edrych pa fodd y mae rhyngddo ef a Duw. Ac er ei fod yn ymhyfrydu mewn crefydd brofiadol, nid yw yn esgeuluso crefydd ymarferol, ai bleser yw cydymffurfio â'r gair yu ei holl ranau. Ond am y rhagrithiwr, pa mor bell bynnag yr eio mewn pethau crefyddol, y mae ganddo *ryw degan neu chwant mynwesol*. Yr oedd y gwr ieuangc yn ymddangos yu grefyddol iawn; ond pan y dywedwyd wrtho am ymadael â'i degan, sef cyfoeth; fe aeth ymaith yu athrist. Ond y mae'n rhaid torri'r fraich dde, a thynnu ymaith y llygad de; hyny yw, mae'n rhaid ymadael â'r eihun mwyaf anwylygenym; ac agos attem. "Nyni a adawsom bob peth, ac a'th ganlynasom di:" dyma iaith pob duwiol.

Y mae'r rhagrithiwr yu ymfalchïo yn ei gyflawniadau, fel y Pharisead, *Luc* 18. 12. "Yr wyf yn ymrydio ddwywaith yu yr wythnos," &c. Ond nid felly y mae'r duwiol; y mae efe yn teimlo achos i ymostwng yu wyneb ei gyflawniadau, ac ymbil am faddeuant o'i bechodau, yn ei gyflawniadau mwyaf pur. *Eph.* 3. 8. *1 Tim.* 1. 15.

2. Yr achosion ag sydd yu peri fod dynion yu gorphwys ar rith duwioldeb.

Oblegid eu bod yn cymmeryd rhyw beth tebyg i ras, yn lle gwir ras.

Mae llawer yn profi rhyw weithrediadau ar eu meddwl; a'u cydwybod yn cael ei deffroi, ac yn eiddal yn euog; a'u tymmerau yn cael eu toddi, &c. ac yn gorphwys ar y pethau hyn, gan feddlwl, mai gwaith gras a'r Yspryd yw, pan nad oes dim yn ychwaneg uâ'r deall yu gweithredu ar y cydwybod. Y mae ar y cyfryw, ryw esia deddfol, ac yn meddwl mai osu efeniglaidd yw.

Y mae llawer yn gorphwys ar gyflawniadau allanol, a glanhau y tu allan i'r corffan.

Y maent yn hollawl anwybodus o eisiau crefydd brofiadol; o'r anghensheidrwydd o ail-enedigaoth, fel yr

oedd Nicodemus. Y maent yn meddwl, bod byw yn ddistaw mewn cymmydogaeth, bod yn barod i wneyd daioni, myned i'r llan neu gapel, a bod yno yn ddefosi-ynol, derbyn y cymmun ychydig o weithiau yn y flwydd-yn, &c. Y maent (meddaf) yn meddwl bod hyn yn ddigon o grefydd, i'w dwyn i'r nefoedd. Duw a drugarhao wrth y cyfryw.

Y mae eraill yn fwy goleu na'r rhai'n; ond, a syrthiant yn y diwedd i'r un pwell; sef y rhai sydd yn gwybod am ffordd a threfn iechydweiaeth; yn gwybod ewyllys yr Arglwydd; ond erioed heb ymddiried yn Nghrist, na phlygu i wneyd ei ewyllys ef.

Y mae llawer yn troi i'w eu hunain, trwy feddwl fact ganddynt: rasusau cadwedigol, pan nad oes ganddynt ond rhyw beth tebyg iddynt.

Mae gan y rhagrithiwr rith o bob gras. Y mae ganddo wybodaeth hanesiol o gyflwr llygredig dynolryw, o Dduw, yr Arglwydd Iesu Grist, o fendithion Crist, &c., ac felly yn cymmeryd gwybodaeth hanesiol yn lle cadwedigol wybodaeth, sydd â bywyd tragawyddol, ya gysylluedig â hi. *Tuan. 17. 3.*

O herwydd bod ganddo grediniaeth gyffredinol o byngciau egwyddorol crefydd, y mae yn meddwl bod ganddo wir ffydd. Nid yw yn casau crefyddwyr, oblegid ei fod wedi ei ddwyn i fynu, yn eu plith; y mae yn hynod serchiadol tu ag at Fab Duw, ac felly yn meddwl bod ganddo gariad at Dduw, a'i bobl. Y mae yn gob-ethio y bydd iddo gael ei dderbyn i'r nefoedd, pan nad yw ei obaith ond tebyg i wé y pryf coppyn.

O eisiau pryso eu crefydd yn nghlarian y cyswgr. Y mae llawer yn gwneuthur pwysau a mesur, i farau eu crefydd wrthynt, ac yn esgeuluso'r gair. Nid ydynt yn cymmeryd gair Duw yn faen prawf, nac yn ystyried bod yn rhaid cael crefydd yn ol y gair dwyfol.

3. Truenusrwydd cyflwr y bobl sydd yn gorphwya ar rith duwioldeb.

Oblegid ei fod o'r fath waethaf. Nis gall y Diafol rwyng ym dnyion â chadwyn gryfach, na'u dwyn i ymorphismys ar rith duwioldeb. Mae y putteiniwr, y medd-

wyn; y lleidr, &c. yn fwy agored i argyhoeddiad nâr rhagrithiwr; fe lecha hwn tan ryw gysgod neu gilydd; fel ag y bydd yn diangc rhag saethau'r gair: yn lle eu cymmwyso atto ei hun, y mae'n meddwl mai i ryw un arall y maent yn perthyn. Fe ellir dywedyd wrtho fel y dywedodd Crist wrth y Phariseaid, "Yr â'r publicanod, a'r putteinwyr i mewn i deyrnas nefoedd o'cl'r blaen chwi." *Math. 21. 31.*

Y mae yn gyflwr enbyd, oblegid ei fod mor gyffelyb i gyflwr o ras, ac etto heb fod; mae'r camgymeriad o hono am ras yn hawdd i'w wnëyd; ac felly, tra y mae'r pechadur yn meddwl fod ei gyflwr yn o dda, nid yw mor ymdrechgar am gyfnewidiad; ac felly yn rhwystr iddo ei hun, i fyned fel pechadur i geisio trugaredd. Dyna fel yr oedd eglwys y Laodioeact, "Cyfoethog wyf ac nid oes arnaf eisiau dim." Yr oedd hi yn meddwl fod ei chyflwr yn dda; ac yr oedd hynny yn rhwystr iddi fyned i geisio bendithion. Yr oedd y pump morwyn ffol yn meddwl fod ganddynt o'fêw, ac am hyny nid oeddent yn myned i brynu, hyd nes y daethant i weled eu bod heb ddim, pan yr oedd yn rhy ddiweddar. Felly, y mae meddwl fod gan ddyn ras, ac etto hebdo, yn rhwystr iddo ymofyn am dano.

Y mae yn gyflwr enbyd; *oblegid ei fod yn agored i farn drom.* "Am hyny y dentyn Duw arnynt amryfusedd cadarn, fel y credont gelwydd." Y maent yn cael eu rhoddi i fynu i galedweh calon, a dallineb ysprydol. Fe fydd poenau y rhagrithiwr yn swy nag eraill. Fe fydd yn siommedigaeth fawr i laweroedd, sydd yn meddwl fod ganddynt rym duwioldeb, pan y pwysir hwynt yn y elorian a'u cael yn briu; wedi twyllo eu hunain trwy eu holl fywyd. Fe fydd yr haf wedi darfod, a'r cynhauf wedi myned heibio, a hwythau heb fod yn gadwedig, yn gorfod myned i dragywyddol fflanmau.

4. Yn ddiweddar, gwelwn mai peth manwl iawn yw duwioldeb. Nid peth rhyfedd i Grist ddywedyd, "Mai cyfyng yw'r porth, a chul yw'r ffordd sydd yn arwain i'r bywyd, ac mai ychydig sydd yn ei chael hi," *Math. 7. 14.* "ac y mae llawer a ewyllysiant fyned i mewn, a:

nis gallant." Ffordd hyfryd yw ffordd y bywyd, i'r rhai sydd â bywyd ganddynt, o'r un natur a'r bywyd tu draw i'r bedd. Ffordd sanctaidd yw hi; am hyny, "yr halogedig nid â ar hyd-ddi."

Mae yn bryd bellach i ofyn, "Pwy â all fod yn gadwedig?" Os yw llawer, er myned mor bell mewn proffes a theimladau, yn y diwedd yn golledig; oni ellir penderfynu, mai ychydig yw y rhai cadwedig? Na foddlonwn ar ryw beth tebyg i dduwioldeb; ond ymofynwn am *rym*. O eisiau pwysu eu crefydd yn nghlorian y cyssegr, yn y byd, fe fydd llaweroedd yn cael eu pwysu yn y farn, a'u cael yn brin. Bydd wrth y gorchwyl o hunan-ymholiad, tra fyddot ti byw; oblegid y mae yn amhossibl i ti fod yn rhy fanwl. Nac ymddiried i ti dy hun yn unig; ond dymuna i'r Arglwydd dy chwilio, a rhoddi i ti grefydd a arddelo efe yn y farn. Mae yn dda gèn yf gael dywedyd hyn wrth ddibenu; os cai di dy hun yn brin, mae Duw yn abl i roddi i ti grefydd a ddeil yn bwysau. Mae'r haf heb ddarfod, a'r cynhaaf heb fyned heib; ac y mae marchnad enaid yn para. Mae'r Arglwydd yn gwahodd pechaduriaid i geisio duwioldeb. "Ceisiwch yr Arglwydd tra gellir ei gael, a gelwch arno tra fyddo yn agos." "Ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef." *Math.* 6. 33. "O, deuwch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno, i'e yr hwn nid oes arian ganddo; deuwch prynwch a bwytwch; i'e deuwch prynwch win a llaeth heb arian ac heb werth." *Esay* 55. 1. "Ac y mae'r Yspryd a'r briodas-ferch yn dywedyd, tyred; a'r hwn sydd yn clywed, dyweded, tyred; a'r hwn sydd â syched arno, deued; a'r hwn sydd yn ewyllysio, cymmered ddwfr y bywyd yn rhad." *Dat.* 22. 17. Duw pob gras a fendithio y pethau a ddywedwyd, trwy Iesu Grist, er tragwyddol lesad i bechaduriaid, Amen,

DIWEDD.

HYSYSIAD.

MAE AWDWR Y PREGETHAU HYN MEWN BWRIAD
I GYHOEDDI LLYFR, A ELWR,

HANES

LLWYDDIANT YR EFENGYL

YN BAILITH Y

PAGANIAID,

YN

AMERICA, AFRICA, AC ASIA.

FE GYNNWYS Y LLYFR Y PETHAU CANLYNOL:

Yn 1. Maintoli y Gwledydd a rhafedi eu trigolion. 2. Pa fath grefydd ac ymddygiadau oedd ganddyn, cyn dyfodiad yr Efenfyl attynt. 3. Pwy oedd y Gweinidogion a aeth ar Efenfyl, ac a'i pragetodd iddynt. 4. Yr ardehiad, a'r llwyddiant, a gaeodd hi yn eu plith. 5. Yr effeithau dymunol sydd i'w gwelod allant. 6. Profadau amryw o honant, ar ol credu'r Efenfyl.

Fe fydd yn nechreol llyfr, tun un o'r gweinidogion sydd yn eu plith; a hon tri o'r rhai a tagwyd yn Baganiaid; pa rhai sydd yn gandyntwr i Grist; ac a stant trosodd yn *Llanllith*.

Fe fydd y llyfr o ddestu gwerth swllt.

Fe ddymanir ar y rhai sydd yn bwriadu ei dderbyn, ddaunon eu henwau i'r Awdwr i Ddinbych, cyn diwedd yr haf nesaf. Y cyffwrdd ag a dderhyniant ddwsen a gant un am eu traferth.

Os bydd rhyw rai yn chwennych, hwy allant ei gael yn rhannau, chwe chemiog, ond hyspysu hwy gyda'r henwau. Ni ddiagwyllir dim rhagfaliad gyda'r enw, ond tŷ y llyfr wrth ei dderbyn.

